

# Hunanasesiad Corfforaethol 2022-23

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

BRIDGEND County Borough Council

# Un Cyngor

# Cynnwys


1. Pwrpas yr adroddiad hwn 4

2. Byd newidiol i lywodraeth leol 4

3. Sut mae'r cyngor yn perfformio? 5

Ymgynghori, ymgysylltu a chyfathrebu 8

Ein cynnydd yn erbyn meysydd i'w gwella y llynedd 9

Blaenoriaeth 1: Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus 15

Blaenoriaeth 2: Helpu cymunedau a phobl i fod yn iachach ac yn fwy gwydn 25

Blaenoriaeth 3: Defnyddio adnoddau'n ddoethach 41

4. Sut mae'r cyngor yn defnyddio ei adnoddau? 50

5. Pa mor dda yw trefn lywodraethu'r cyngor? 58

6. Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 62

## 1. Pwrpas yr adroddiad hwn

Ym mis Ionawr 2021, pasiodd Senedd Cymru gyfraith newydd a newidiodd y ffordd y mae cynghorau yn gweithio. Bob blwyddyn, rhaid i ni gyhoeddi adroddiad hunanasesu. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 6 Ebrill 2022 a 5 Ebrill 2023.

Rydym am i'r adroddiad roi sicrwydd i Lywodraeth Cymru ein bod yn perfformio'n dda. Rydym hefyd am iddo ddweud wrthi ein bod yn defnyddio ein harian a'n hadnoddau eraill yn briodol ac yn gwneud penderfyniadau mewn ffordd synhwyrol ac agored. Yn bwysicaf oll, rhaid i'r adroddiad ddweud wrth drigolion lleol, busnesau a'r holl randdeiliaid sut yr ydym yn gwneud.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ganllawiau a oedd yn dweud wrthym sut i ddatblygu ein hunanasesiad a pha dystiolaeth i'w defnyddio i farnu ein hunain.

## 2. Byd newidiol i lywodraeth leol

Mae'r byd wedi newid llawer ers y pandemig, ac mae'n cael effaith fawr ar y ffordd y mae'r cyngor yn gweithio.

Mae'r argyfwng costau byw yn gwneud pethau'n anodd i chi fel trigolion a busnesau, ac mae'n ei gwneud hi'n anoddach i'r cyngor ymdopi hefyd. Rhai o'r heriau y mae eich cyngor yn eu hwynebu yw:

- Costau ynni uwch ar gyfer canolfannau cymunedol, canolfannau hamdden ac ysgolion
- Costau tanwydd uwch ar gyfer cludiant i'r ysgol, gofalwyr cartref a cherbydau ailgylchu
- Newidiadau i gost ac argaeledd nwyddau fel bwyd ar gyfer cartrefi preswyl a deunyddiau adeiladu ar gyfer ysgolion newydd
- Codiadau cyflog i'n staff sy'n darparu gwasanaethau anhepgor
- Y llywodraeth yn gofyn i ni ddarparu gwasanaethau ychwanegol fel dosbarthu taliadau costau byw
- Effeithiau ar drigolion sy'n ychwanegu galw at wasanaethau, gan gynnwys mwy o ddigartrefedd ac atgyfeiriadau diogelu
- Cyllid ar gyfer y cyngor ddim yn cynyddu ar yr un gyfradd â phrisiau




## 3. Sut mae'r cyngor yn perfformio?

Bob pum mlynedd, mae'r cyngor yn cyhoeddi cynllun corfforaethol newydd. Mae'r cynllun hwn yn disgrifio blaenoriaethau'r cyngor, pam eu bod yn bwysig, a sut y caiff cynnydd ei fesur. Mae'r blaenoriaethau, neu'r amcanion llesiant, yn dangos ein hymrwymiadau i'n dinasyddion a'n cyfraniad at saith nod llesiant Cymru:

| Nod Llesiant | Blaenoriaeth 1: Economi gynaliadwy lwyddiannus | Blaenoriaeth 2: Helpu pobl i fod yn iachach ac yn fwy gwydn | Blaenoriaeth 3: Gwell defnydd o adnoddau |
|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | ✓ | | ✓ |
| Cymru gydnerth | | | ✓ |
| Cymru iachach | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymru o gymunedau cydlynus | ✓ | ✓ | ✓ |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | ✓ | ✓ | |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | ✓ | | ✓ |

Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn dweud bod yn rhaid i ni ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw. Yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy, bydd ein hamcanion llesiant yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol hirdymor. Rydym yn adolygu cynnydd bob blwyddyn i wneud yn siŵr bod ein gweithredoedd yn dod â ni yn nes at ein nodau. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â blwyddyn olaf y cynllun corfforaethol a gyhoeddwyd yn 2017 (er ei fod yn cael ei adnewyddu a'i ddiweddaru'n flynyddol), gyda thair blaenoriaeth i'r cyngor:



Pan wnaethom ddatblygu'r cynllun corfforaethol hwn, gwnaethom feddwl yn galed am y math o sefydliad yr oeddem am fod. Ein gweledigaeth yw gweithredu fel **un cyngor** yn cydweithio i wella bywydau. Mae gennym broses ar gyfer mesur sut yr ydym yn gwneud wrth roi'r blaenoriaethau hyn ar waith. Rydym yn defnyddio:

- dangosyddion perfformiad
- tystiolaeth ar gyflawni ein prosiectau
- adborth gan drigolion, busnesau a phartneriaid
- barn ein rheoleiddwyr ac archwilwyr

Mae pob rhan o'r cyngor yn tynnu'r wybodaeth hon at ei gilydd ac yn ei chyflwyno i gynghorwyr, sy'n edrych ar y data, yn ei wirio, ac yn gofyn cwestiynau. Gwnaethpwyd hyn ar gyfer y flwyddyn 2022-23 ym mis Mehefin 2023. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddod i farn ar bob blaenoriaeth gan ddefnyddio'r raddfa hon:



**Anfoddhaol**
Mae gwendidau pwysig yn drech na chryfderau. Angen gwella ar frys

**Digonol**
Cryfderau yn drech na gwendidau, ond mae angen gwella agweddau pwysig

**Da**
Nodweddion cryf, mae angen gwella mân agweddau

**Ardderchog**
Perfformiad cryf iawn, parhaus

## Ymgynghori, ymgysylltu a chyfathrebu

Gwnaethom ddatblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer yr hunanasesiad. Roedd y cynllun drafft ar gael dros yr haf ar ein gwefan a defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol, y panel dinasyddion ac ystod o drafodaethau partner i godi ymwybyddiaeth ohono.

Am y tro cyntaf eleni, rydym wedi ymgynghori'n ffurfiol ar ein hunanasesiad. Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan y cyngor rhwng 17 Awst a 28 Medi 2023.

Y gyfradd ymateb oedd:

- 584 o ymwelwyr i'r dudalen ymgynghori
- 238 o ymatebion i'r cwestiynau
- 129 o lawrlwythiadau o'r ddogfen hunanasesu (dim ond ychydig dros hanner y rhai a ymatebodd)

Mae hon yn gyfradd ymateb eithaf isel. Yn y dyfodol, bydd angen i ni ddatblygu dull gwahanol o ymgynghori ar ein hunanasesiad.

Mae ymatebion manylach i'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys ym mhob adran o'r ddogfen hon.



## Ein cynnydd yn erbyn meysydd i'w gwella y llynedd

Yn ein Hunanasesiad Blynyddol ar gyfer 2021/22, gwnaethom nodi cyfres o feysydd yr oedd angen eu gwella'n benodol yn y flwyddyn 2022/23. Isod ceir diweddariad ar y gwaith yr ydym wedi ei wneud yn y meysydd hyn. Rhoddir mwy o fanylion am y camau gweithredu hyd yma, a'r rhai sydd wedi'u cynllunio o hyd, ym mhob adran fanwl o'r adroddiad hwn. Yn 2022/23, rydym wedi gwneud y canlynol:

# Blaenoriaeth Un

Darparu **cefnogaeth sylweddol, barhaus i ysgolion er mwyn iddynt allu delio ag effaith COVID-19**. Mae ysgolion wedi gwneud gwaith hunanwerthuso gyda'u partneriaid gwella i nodi lle mae angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr ar ôl y pandemig. Mae pobl ifanc sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth yn wynebu ystod eang o anawsterau cymdeithasol ac iechyd meddwl, ac mae'r mwyafrif wedi dweud mai'r pandemig yw'r prif gyfrannwr.

Ymgymryd ag ystod o weithgareddau i **wella presenoldeb yn yr ysgol**, gan gynnwys archwiliadau presenoldeb yn yr ysgol, grŵp gorchwyl a gorffen newydd gyda phenaethiaid, swyddogion lles addysg a chynrychiolwyr cyfreithiol i adolygu strategaeth presenoldeb yr awdurdod lleol, patrolau triwantiaeth, annog defnydd o 'system gyfeillio', ac ailgyflwyno system 'Callio' y consortiwm.

Penodi arweinydd gwahardd yn y Tîm Ymgysylltu ag Addysg i helpu i wneud yn siŵr bod ysgolion yn dilyn y **prosesau a gweithdrefnau cywir ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol**.

Gweithio gyda Chonsortiwm Canolbarth y De i gefnogi ysgolion ar hunanwerthuso ac asesu, gwelliant parhaus, a **gweithredu'r cwricwlwm newydd**.

Gweithio gyda chabinet y cyngor a phwyllgorau craffu i **fynd i'r afael â'r pwysau ar y gyllideb** rydym yn eu hwynebu ym myd addysg, gan gynnwys cludiant i'r ysgol a'r rhaglen moderneiddio ysgolion.

Gwneud rhai gwelliannau i'r **materion o ran capasiti staffio sy'n effeithio arnom yn y Gyfarwyddiaeth Addysg**, gan gynnwys adnoddau staffio cryfach o fewn y Tîm Sgrinio Cymorth Cynnar a'r Tîm Ymgysylltu ag Addysg, cymorth i ddysgwyr, y Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd (CART), a'r Tîm Moderneiddio Ysgolion.

Parhau i wella **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr**, nad yw bellach o dan fesurau arbennig, ac mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi dileu unrhyw waith monitro ffurfiol o'r gwasanaeth.

Llywio ein **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** trwy'r broses gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-2027 a phenodi Cydlynydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg amser llawn. Mae'r holl gamau gweithredu yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2023 wedi'u cwblhau.

**Adfywio Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr** i gyflwyno digwyddiadau cymorth busnes, gan gynnwys digwyddiad cymorth busnes ym mis Mehefin 2022.

# Blaenoriaeth Dau

Datblygu cynllun gweithredu i **fynd i'r afael â materion o ran y gweithlu mewn gwaith cymdeithasol plant a gofal cartref**. Rydym wedi gwneud cynnydd drwy ddefnyddio gweithwyr asiantaeth i wneud yn siŵr ein bod yn bodloni dyletswyddau statudol, gan gyflogi swyddogion cymorth gweithwyr cymdeithasol, cyflwyno taliadau atodol ar sail y farchnad i gyflogau, datblygu siarter gweithiwr cymdeithasol, a recriwtio swyddog i hyrwyddo'r cyfleoedd mewn rolau gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn gwneud cynnydd o ran recriwtio rhyngwladol a thyfu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain at y dyfodol.

I'n helpu ni i **wella cysondeb ymarfer gwaith cymdeithasol ym maes gofal cymdeithasol plant**, rydym yn gweithredu'r model 'Arwyddion Diogelwch' o ymarfer gwaith cymdeithasol ac mae staff wedi derbyn hyfforddiant ar y dull hwn. Rydym wedi cael tri arolygiad o'n gwasanaethau cymdeithasol plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae pob un wedi dangos gwelliant.

I **wella ansawdd a chysondeb gwasanaethau gofal preswyl i blant**, rydym wedi cynnal adolygiad o'n darpariaeth breswyl ac wedi penodi unigolyn cyfrifol penodedig sy'n gyfrifol am ansawdd y gofal. Mae arolygiadau rheoleiddio wedi dangos sefyllfa well.

I **wella 'drws ffrynt' gwasanaethau plant**, rydym wedi rhoi mwy o staff yn ein canolfan ddiogelu amlasiantaeth ac, er gwaethaf cynnydd yn y galw, rydym yn perfformio'n dda. Yn y gwasanaethau i oedolion, rydym wedi gwella ein defnydd o'r 'pwynt mynediad cyffredin' drwy ddargyfeirio galwadau nad oes angen ymateb gwasanaethau cymdeithasol arnynt i wasanaethau priodol eraill yn y cyngor.

Sefydlu fforwm llais ieuenctid i'n helpu i wrando ar leisiau pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Rydym yn gwella'r ffordd yr ydym yn **datblygu gwasanaethau gyda phobl a fydd yn eu defnyddio**, ac mae enghreifftiau da o hyn yn ddiweddar yn cynnwys y cerdyn gofalwyr ifanc a byw â chymorth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Cynnwys llwybrau newydd i **wella prosesau rhyddhau o'r ysbyty**, ond mae capasiti mewn gwasanaethau gofal cymunedol yn parhau i fod yn her. Rydym yn moderneiddio gofal cartref mewnol, yn cael gwared ar 'shifftiau hollt' ac yn recriwtio i swyddi gwag.

Tendro am wasanaeth lles gofalwyr newydd i **wella cefnogaeth i ofalwyr**. Mae gennym bolisi taliadau uniongyrchol newydd a ddatblygwyd gyda rhieni a gofalwyr. Rydym wedi datblygu rhwydwaith gofalwyr ifanc a llysgenhadon gofalwyr ifanc ac wedi ehangu buddion trwy gerdyn adnabod i ofalwyr ifanc.

Gweithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) i ddatblygu rhwydweithiau cynrychioliadol cymunedol sy'n cefnogi atal a llesiant, gan weithredu ein Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a datblygu Chwaraeon Anabledd, cefnogi datblygiad cymunedau oed-gyfeillgar, a chynnal rhaglenni cymorth i deuluoedd, gan gynnwys y Parth Actif i Deuluoedd, Camau i Famau a chyfleoedd i'r Blynyddoedd Cynnar. **Mae gwasanaethau hamdden a diwylliannol yn gwella o'r pandemig**, gyda ffocws ar gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed ac atal anghenion rhag gwaethygu.

Datblygu **Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar gyfer 2022-24**, sydd wedi'i gymeradwyo gan y cabinet. Ei nod yw sicrhau'r cyfleoedd chwarae gorau posibl i blant a phobl ifanc mewn ystod eang o weithgareddau ar draws y fwrdeistref sirol.

Gwneud **cynnydd pellach ar ddiwygio ADY**, gan gynnwys gweithredu'r Cynllun Gwella ADY, datblygu model gweithio clwstwr effeithiol sy'n cynnwys cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol, sefydlu panel ADY wythnosol, a chreu tîm statudol ADY. Rydym wedi agor canolfan adnoddau dysgu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg (Ysgol Cynwyd Sant) a chanolfan adnoddau dysgu ar gyfer dysgwyr ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg (Ysgol Gynradd Tremains).

Comisiynu adroddiad adolygu ar y **parciau strategol mawr ym Mhen-y-bont ar Ogwr**. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn ystyried yr argymhellion ac yn rhoi cam ar waith i fynd i'r afael â nhw.

Parhau'r rhaglen o **welliannau i fannau chwarae plant**, gyda naw maes chwarae wedi'u cwblhau yn 2022. Mae buddsoddiad pellach gwerth £2.9 miliwn wedi'i gynllunio ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, gan gynnwys cyfleusterau chwarae hygyrch.

Datblygu ac ymgynghori ar **'Raglen Cymorth Tai 2022-2026'** pedair blynedd newydd i esbonio'r prif flaenoriaethau ar gyfer y cyngor a'i bartneriaid wrth ddarparu gwasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau eraill ar ein **dull gweithredu ar gyfer cartrefu ffoaduriaid** (gan gynnwys ffoaduriaid o Wcráin).

Gweithio gyda'r bwrdd partneriaeth ar y cyd i **ddeall anghenion a barn carcharorion yng Ngharchar y Parc**. Mae'r bartneriaeth ar hyn o bryd yn sefydlu dull carchar cyfan o atal afiechyd, hybu llesiant, a chanolbwyntio ar adfer ac adsefydlu, yn ogystal ag ar weledigaeth sengl a rennir a diwylliant adsefydlu ar gyfer CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc.

# Blaenoriaeth Tri

Dod â’r prosesau statudol i ben ar gyfer cynigion **Ysgol Gymraeg Bro Ogwr ac Ysgol Heronsbridge** a chychwyn ar y broses ddylunio ar gyfer yr ysgolion newydd. Rydym wedi datblygu opsiynau ar gyfer cyflwyno yn ystod bandiau’r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn y dyfodol, a fydd yn cael eu hystyried yn y flwyddyn i ddod.

Gwella’r gyfran o’n hadeiladau sy’n bodloni’r **safonau gofynnol ar gyfer cydymffurfio**, gan benodi swyddog cydymffurfio a syrfëwr ysgolion. Mae cydymffurfedd statudol bellach dros 90% mewn pedwar o’r pum maes lle mae risg fawr, sef nwy, trydan, tân ac asbestos. Mae swyddog legionella bellach wedi’i benodi hefyd.

Parhau i ddatblygu ein dull o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, a bellach wedi rhoi **polisi gweithio hybrid a chynllun gweithio oriau hyblyg cytunedig ar waith**.

Dyfarnu **contract gwastraff interim ar gyfer 2024-26** i Plan B Management Solutions Ltd, gan sicrhau y bydd ein gwastraff a’n deunydd ailgylchu yn parhau i gael eu casglu pan ddaw’r contract presennol i ben ym mis Mawrth 2024. Rydym eisoes yn gweithio ar gynlluniau ar gyfer gwastraff ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar ôl y contract hwn, o fis Mawrth 2026.

Datblygu a chyhoeddi fersiwn newydd o’r **Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth, 2022-2025**, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Nid ydym wedi gallu agor y **cyfleuster ailgylchu cymunedol newydd yn y Pîl** a gwireddu’r arbedion y bydd hyn yn eu creu. Ond rydym wedi cyflwyno cais wedi’i ddiweddaru am drwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Ymgynghori ar ein **strategaeth a chynllun gweithredu carbon sero net, Pen-y-bont ar Ogwr 2030**, a’u cyhoeddi a dechrau eu rhoi ar waith, i’n helpu i ymateb i’r argyfwng hinsawdd.

## Defnydd o adnoddau

Cytunwyd ar y gyllideb ar gyfer 2022-23 ym mis Chwefror 2022, cyn cynnydd mawr mewn chwyddiant, costau ynni a chostau byw. Mae hyn yn golygu bod ein cyllidebau gwasanaeth wedi bod dan bwysau difrifol yn ystod y flwyddyn. Mae'r **ffordd rydym yn monitro ac yn gweithredu ar bwysau ariannol wedi gwella**, gan gynnwys cynnal sesiynau briffio ar gyllidebau i aelodau. Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd archwiliadau dwfn yn cael eu hychwanegu at y broses o bennu'r gyllideb i sicrhau bod pob maes gwasanaeth yn cael ei archwilio a'i adolygu.

**Gwella ein proses hunanasesu** i'w wneud yn rhan o ddull rheoli perfformiad rheolaidd y cyngor, gan ymgynghori'n ffurfiol ar yr adroddiad drafft.

**Datblygu cynllun corfforaethol pum mlynedd newydd** sy'n esbonio blaenoriaethau'r cyngor a chynllun cyflawni blwyddyn o hyd i fesur ein cynnydd arnynt. Fel rhan o hyn, rydym hefyd wedi cytuno ar gynllun ar gyfer gwella'r ffordd y mae'r cyngor yn rheoli perfformiad.

Gweithredu ar y canfyddiadau yn **arolwg staff 2021** a chynnal arolwg staff newydd ar ddiwedd 2022. Mae cynllun gweithredu bellach wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys camau gweithredu ar y diwylliant sefydliadol, dealltwriaeth o flaenoriaethau, rheolaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu, datblygu gwybodaeth a sgiliau, a gweithio hybrid.

Datblygu **strategaeth cyfranogiad newydd** ar gyfer y cyngor a gyhoeddir yn fuan, a llwyfan ymgysylltu digidol i helpu trigolion i gyfrannu at benderfyniadau'r cyngor drwy gymryd rhan mewn ymgyngoriadau.

Gwneud cynlluniau i sefydlu gweithgor gyda chomisiynwyr a'r tîm caffael corfforaethol, i'n helpu i **wneud comisiynu yn fwy cyson**.

**Gwella ein rheolaeth o asedau** drwy adolygu Cynllun Rheoli Asedau Strategol 2030, lleihau ein hôl-groniad o waith cynnal a chadw, gwella ein rheolaeth o gydymffurfedd adeiladau statudol, a gwneud cynnydd ar y system rheoli gwaith integredig (IWMS) i wella ein data a'n meincnodi.

Datblygu **cynllun gweithlu strategol** a fydd yn cael ei gymeradwyo gan y cabinet yn y flwyddyn i ddod. Ymgymerwyd â hyfforddiant cynllunio gweithlu strategol ar gyfer cyfarwyddwyr a swyddogion adnoddau dynol gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

## Llywodraethu

Cwblhau gwaith ar Siambr y Cyngor ac ystafelloedd pwyllgor, fel bod modd cynnal **cyfarfodydd hybrid**.

Datblygu **cyfansoddiad newydd a chanllaw hawdd ei ddeall**, i'n gwneud yn gyson â chynghorau eraill ledled Cymru.

Creu rhaglen **sefydlu, hyfforddi a datblygu gydag aelodau etholedig**.



Blaenoriaeth

# 1

## Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus



## Rydym am adeiladu man lle gall pobl gael swyddi a gyrfaoedd da a gwella incwm eu teulu.

Mae ffyniant yn hybu iechyd a llesiant ac yn creu cymunedau mwy cydnerth sydd angen llai o wasanaethau. Addysg yw'r rhan bwysicaf o wella cyfleoedd bywyd pobl ifanc.



Ein prif ffyrdd o gyflawni'r amcan hwn yw:

- **Gwella deilliannau i ddysgwyr** – Cefnogi plant, oedolion a theuluoedd i gael gwell canlyniadau addysg;
- **Twf a ffyniant** – Hyrwyddo'r amodau ar gyfer twf a ffyniant drwy helpu pobl a busnes i lwyddo.

# Beth yw ein barn ni?

## Cefnogi economi gynaliadwy, lwyddiannus



**Da**

- **Deilliannau i ddysgwyr** – Nid oes data ar gael ar gyfer blwyddyn ysgol 2021-2022 i'w gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gwnaethom barhau i alinio prosesau monitro a gwerthuso â 'fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd' Llywodraeth Cymru. Parhaodd gwaith gydag ysgolion uwchradd i wella cynnydd dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a chadw dysgwyr ôl-16. Mae cynllun gwella ôl-16 wedi'i gymeradwyo. Cyflwynodd ysgolion 'ddatganiadau o fwriad' ar gyfer unrhyw newidiadau i'w cwricwlwm, er mwyn rhannu arferion da, gwella cydweithio ac osgoi dyblygu. Yn anffodus, mae pobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth yn cyflwyno ystod eang o anawsterau iechyd cymdeithasol a meddwl, ac mae'r mwyafrif wedi dweud mai'r pandemig yw'r prif gyfrannwr. Gwnaethom gyflwyno cam cyntaf y cynllun cyffredinol i ddarparu prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd i ddisgyblion yn y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

- **Cymorth i ysgolion** – Buom yn gweithio gyda Chonsortiwm Canolbarth y De i gefnogi ysgolion ar hunanwerthuso ac asesu, gwelliant parhaus, a gweithredu'r cwricwlwm newydd. Ailddechreuodd Estyn arolygiadau ysgol yng ngwanwyn 2022. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ysgolion mewn categorïau statudol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond mae chwe ysgol yn derbyn gwaith 'monitro uwch'. Mae gwaith hunanwerthuso ysgolion gyda'u partneriaid gwella yn parhau i nodi lle mae angen cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr ar ôl y pandemig. Roedd swyddogion yn cynnig cymorth ychwanegol ac ymweliadau monitro amlach ag unrhyw leoliad blynyddoedd cynnar nas cynhelir pe bai pryderon yn cael eu nodi ar ôl arolygiadau.

- **Addysg Gymraeg** – Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-2027 ac rydym wedi penodi Cydlynydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg amser llawn. Mae'r holl gamau gweithredu yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2023 wedi'u cwblhau. Parhaodd darpariaeth trochi Cymraeg i ddatblygu ac mae niferoedd dysgwyr Blwyddyn 1 mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu. Mae ein cynlluniau cyfalaf yn helpu i dyfu lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg. Cwblhawyd y gwaith adeiladu ar gyfer y cynllun gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Metws.

- **Presenoldeb a gwaharddiadau** – Mae creu arweinydd gwahardd o fewn y Tîm Ymgysylltu ag Addysg wedi cynorthwyo ysgolion i sicrhau bod y prosesau a gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn mewn perthynas â gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol. Er bod canran y diwrnodau ysgol a gollwyd oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion cynradd yn y flwyddyn ysgol 2021-2022 (adroddwyd yn 2022-2023) yn sefydlog o'i chymharu â lefelau cyn y pandemig, roedd y sefyllfa mewn ysgolion uwchradd ddwywaith y lefelau a gafwyd cyn y pandemig.

- **Adfywio** – Mae Prif Gynllun Canol y Dref ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys ailddatblygu'r orsaf drenau, yn mynd rhagddo. Mae safle newydd Campws Coleg Pen-y-bont yng nghanol y dref yn cael ei glirio a'i baratoi ac mae'r cais cynllunio wedi'i gyflwyno. Mae'r agenda Creu Lleoedd ar gyfer Porthcawl yn edrych ar seilwaith, tir y cyhoedd, a mannau gwyrdd. Mae siop Aldi yn Salt Lake bellach ar agor.

Mae'r cynllun amddiffynfeydd môr gwerth £6 miliwn wedi'i gwblhau ar y Promenâd Dwyreiniol ac ar agor i'r cyhoedd. Cafodd y cyngor grant o £18 miliwn ar gyfer Pafiliwn y Grand, i adnewyddu ac ymestyn y lleoliad a darparu ystod ehangach o ddigwyddiadau a gweithgareddau. Rydym yn gweithio gyda darparwyr tai i fuddsoddi mewn tai yng nghanol trefi. Mae'r gwaith ar Neuadd y Dref Maesteg yn symud yn ei flaen, ond bydd oedi cyn ei gwblhau. Rydym yn buddsoddi yng nghanol trefi ac yn gweithio gyda phartneriaid i ailddatblygu safleoedd ac adeiladau. Darparodd y rhaglen adfywio dros £600,000 o grantiau gwella ar gyfer eiddo masnachol ar ôl COVID-19. Mae cymorth o £1.36 miliwn ar gael am dair blynedd arall. Mae nifer yr eiddo gwag yng nghanol pob tref wedi gostwng.

- **Cymorth busnes** – Mae Prosiect Gwella a Ffynnu Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi busnesau newydd a microfusnesau. Mae busnesau newydd wedi cynyddu i 770, hynny yw 28% yn fwy ers 2021-22. Mae'r strategaeth gaffael tair blynedd sy'n gymdeithasol gyfrifol a'r cynllun cyflawni yn sicrhau bod ein gwariant yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a'r trydydd sector. Mae galw sylweddol am yr unedau masnachol newydd yn natblygiad Cosy Corner ym Mhorthcawl ac rydym yn gweithio gydag asiantau i osod yr adeiladau newydd hyn, a fydd yn agor ym mis Awst 2023.
- **Cymorth ar gyfer cyflogaeth** – Mae Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu cymorth i drigolion a gweithwyr y cyngor, gan gynnwys pobl ddi-waith, a'r rhai mewn gwaith ond sy'n cael trafferth gyda sgiliau isel neu dlodi mewn gwaith. Nifer y bobl o'r Cynllun Cyflogadwyedd sydd wedi mynd i gyflogaeth yw 392 yn 2022-23. Rydym hefyd wedi mynd i'r afael â thlodi gwaith drwy gynorthwyo tua 107 o bobl i gael swyddi â chyflogau uwch.
- **Twristiaeth** – Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i gynnal digwyddiadau i gynyddu twristiaeth ym Mhorthcawl, gan gynnwys y twrnamaint Golff Agored i Bobl Hŷn yn Royal Porthcawl. Rydym hefyd wedi rhoi cyngor ar Driathlon Porthcawl, Casgliad Tryciau Porthcawl a Gŵyl Elvis Porthcawl. Bydd datblygiad Cosy Corner yn darparu cyfleusterau cymunedol newydd yn dilyn buddsoddiad o £3 miliwn a bydd wedi'i gwblhau ddiwedd haf 2023. Mae mwy o bobl yn ymweld â Phen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl, cynnydd o 3% ers y llynedd, ac mae bellach wedi cyrraedd y lefelau a gafwyd cyn y pandemig. Bydd data gwariant twristiaeth yn dweud mwy wrthym ar ddiwedd y flwyddyn.
- **Trafnidiaeth** – Mae gwaith yn parhau ar lwybrau teithio llesol newydd ledled y fwrdeistref i sicrhau bod cymunedau wedi'u cysylltu drwy ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy. Ariennir y gwaith hwn trwy gynllun grant y llywodraeth a chyflwynir cais blynyddol. Mae'r cynlluniau teithio llesol wedi'u cynnwys fel rhan annatod o Gynllun Trafnidiaeth Strategol y cyngor, sydd yn y broses o gael ei ddiweddaru ac a fydd yn cael ei gyflwyno i'r cabinet i'w gymeradwyo yn hydref 2023. Mae Prosiect Cyswllt Metro Porthcawl yn dod yn ei flaen yn dda a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn gwanwyn 2023. Mae cynlluniau trafnidiaeth mawr eraill, gan gynnwys Pont Ffordd Penprysg newydd ym Mhencoed a gwelliannau i'r orsaf drenau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn parhau i fod yn flaenoriaethau strategol ond nid ydynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd. Bydd gwaith yn parhau gyda sefydliadau partner fel Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i edrych ar gyfleoedd ariannu posibl.

## Sicrwydd gan reoleiddwyr

Cafodd ein gwasanaethau addysg eu harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Mawrth 2019. Ers yr arolygiad, rydym wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael ag argymhellion Estyn, gan godi safonau llythrennedd mewn ysgolion cynradd, gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn y chweched dosbarth, cynyddu cyflymder y gwelliant mewn ysgolion sy'n peri pryder, a chryfhau rôl Fforwm Strategol Cymraeg mewn Addysg i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Cynhaliodd Estyn hefyd arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned ym mis Chwefror 2023 a nododd adroddiad Estyn a gyhoeddwyd ar 7 Mehefin 2023 fod llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu, gyda'r bartneriaeth yn cynnig ystod ddefnyddiol o gyrsiau yn seiliedig ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, sef sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill. Mae'r bartneriaeth yn darparu ystod o gyngor, arweiniad a chymorth diduedd i helpu dysgwyr i aros ar y trywydd iawn a gwneud cynnydd yn eu dysgu, a nododd Estyn fod y bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddarparu cyngor, cymorth ac arweiniad i ddysgwyr gydag arfarniadau gonest.



## Ymgyngoriadau a gweithgareddau ymgysylltu

| Ymgynghoriad | Dyddiadau | Canfyddiadau ac effaith |
|---|---|---|
| Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 a'r cynllun pum mlynedd sy'n rhan ohono | Gorffennaf 2022 i Fawrth 2023 | Cymeradwywyd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gan Lywodraeth Cymru a chynhaliwyd gweithdai gyda Fforwm y Gymraeg mewn Addysg i greu cynllun pum mlynedd yn rhan ohono. |
| Polisi anghenion gofal iechyd | Ionawr i Fawrth 2023 | Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu gyda disgyblion, staff a rhieni. Teimlai disgyblion fod eu hanghenion gofal iechyd yn cael eu diwallu yn yr ysgol a phe byddent yn lleisio barn yna byddai rhywun yn gwrando arnynt. Teimlai'r disgyblion yn hyderus bod gan y staff yr wybodaeth a'r ymwybyddiaeth i weithredu lle bo angen. Darparwyd gwybodaeth i ysgolion a rhieni i egluro'r polisi. Darperir ymwybyddiaeth bellach i staff a disgyblion o ran cynorthwyo gyda'u hanghenion gofal iechyd. |
| Cynllunio ar gyfer gwelliant | Yn parhau | Mae cymorth ysgolion yn mynychu ac yn cefnogi ymgysylltiad yr holl arweinwyr ysgolion cynradd ac uwchradd o fewn y rhwydwaith 'Cynllunio ar gyfer Gwelliant'. Cynhelir gweithdai ochr yn ochr â siaradwyr gwadd / cyfleoedd i rwydweithio / rhannu gwybodaeth. |
| Gweithgareddau Seren | Yn parhau | Nod gweithgareddau a drefnir gan gydlynwyr hwb Seren yw rhoi mwy o wydnwch i ddysgwyr wrth ddelio â straen arholiadau, llwyth gwaith a bywyd bob dydd. Gofynnir yn rheolaidd am lais y dysgwr, ac mae adborth wedi ein hysbysu bod eu hymgysylltiad yn y digwyddiadau wedi bod yn effeithiol. |
| Rhaglen addysg uwch | Yn parhau | Mae wedi'i hanelu ar draws pob cyfnod allweddol a hefyd wedi hybu gwydnwch a llesiant meddwl iach wrth ymdrin â phwysau ysgol. |
| Gŵyl Lluoedd Pen-y-bont ar Ogwr | Mehefin 2023 | Buom yn gweithio gyda 'Forces Fitness', 'YourNorth' ac 'SSCE Cymru' i greu 'Gŵyl Lluoedd Pen-y-bont ar Ogwr' ar gyfer plant o deuluoedd y lluoedd arfog. Daeth 100 o blant o deuluoedd y lluoedd arfog, sy'n cael eu categoreiddio fel dysgwyr agored i niwed, at ei gilydd am y tro cyntaf i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu llesiant a'u gwydnwch. Amlygodd yr ŵyl yr heriau emosiynol y mae plant milwyr yn eu hwynebu yn eu haddysg trwy gyfweliadau a holiaduron. |
| Cynllun Datblygu Lleol – Archwiliad Cyhoeddus | Ionawr i Fawrth 2023 | Mae'r Arolygydd Cynllunio yn ystyried y dystiolaeth, ond ni ofynnwyd am unrhyw newidiadau arwyddocaol hyd yma. Rhagwelir y bydd y canlyniad yn hysbys ddiwedd hydref 2023. |

| Ymgynghoriad | Dyddiadau | Canfyddiadau ac effaith |
|---|---|---|
| Ymgynghoriad ar Brosiect Hybont ar Ystad Ddiwydiannol Brynmenyn | Rhag 22 yn parhau | Cynhaliwyd dwy arddangosfa gyhoeddus ar 13 a 14 Rhagfyr 2022 a dilynwyd y rhain gan ddigwyddiad gwybodaeth gyhoeddus adborth ar ôl yr ymgynghoriad ar 9 Chwefror 2023. Mae'r cais cynllunio ffurfiol bellach wedi'i gyflwyno ac yn cael ei benderfynu gan yr awdurdod cynllunio lleol. |
| Ymgynghoriad ar Strategaeth 2030 | Rhag 2022 yn parhau | Mae'r strategaeth bellach wedi'i chymeradwyo gan y cyngor a chymeradwywyd cynllun gweithredu gan y cabinet ym mis Rhagfyr 2022. |
| Strategaeth Creu Lleoedd ym Mhorthcawl | Cwblhawyd Mai 2023 | Ymgynghorwyd ar y strategaeth drosfwaol ym mis Mawrth 2022, ac mae'n darparu fframwaith i lywio datblygiad yn yr ardal adfywio yn y dyfodol. Yn deillio o hynny, mae ymgynghoriad pellach ar fannau agored cyhoeddus hefyd wedi'i gynnal hyd at fis Mai 2023, gan gynnwys cyfarfodydd â holl ysgolion Porthcawl, gweithdai rhanddeiliaid, ac ymgynghoriad cyhoeddus yn y Pafiliwn. |

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr hunanasesiad yn dangos y canlynol:

- Roedd 53% o'r ymatebwyr yn credu ein bod wedi darparu digon o dystiolaeth o'n gweithredoedd / cynnydd
- Roedd 50% o'r ymatebwyr yn credu ei bod yn amlwg beth arall yr ydym wedi'i gynllunio
- Roedd 54% o'r ymatebwyr yn meddwl bod y dyfarniad 'Da' fwy neu lai yn gywir

Y prif faterion a godwyd yn y cwestiynau agored am yr amcan llesiant hwn oedd:

- Mae canol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei esgeuluso, gyda llawer o siopau gwag
- Mae ardrethi busnes yn rhy uchel ac nid oes digon o gymorth i fusnesau
- Mae addysg mor bwysig fel y dylid diogelu cyllidebau

## Beth fyddwn yn ei wneud i wella?

Dyma rai o'r prif welliannau y byddwn yn eu gwneud ar gyfer y flaenoriaeth hon:

- Gan ddefnyddio'r Cynllun Gwella Ôl-16, byddwn yn gweithio gydag ysgolion i wella canlyniadau i ddysgwyr yn y chweched dosbarth.
- Bydd y defnydd o waharddiadau parhaol yn cael ei adolygu, a byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer symudiadau rheoledig mewn ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Byddwn yn cefnogi uchelgeisiau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol (2022-2032).
- Byddwn yn cyflwyno o leiaf 20 yn fwy o sesiynau dysgu oedolion yn y gymuned wyneb yn wyneb ac yn cynyddu ymgysylltiad dysgwyr 20%.
- Bydd Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal digwyddiadau cymorth busnes yn 2023.
- Cyflwyno'r System Rheoli Gwaith Integredig (IWMS) i wella cyflymder cyfarwyddiadau gwaith a data cydymffurfedd statudol amser real.

# Astudiaethau achos

## Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a dderbyniodd grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i helpu i liniaru effeithiau'r pandemig ar ddysgwyr. Rhoddodd y cyllid gyfle i recriwtio athro, i ganolbwyntio ar Flynyddoedd 11, 12 ac 13, i ddarparu cymorth a chynyddu cyfraddau cadw dysgwyr ôl-16. Mae'r ysgol hefyd wedi penodi cynorthwyydd dosbarth i helpu dysgwyr â materion lles, i bontio, ac i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg i fagu hyder dysgwyr. Mae'r ysgol yn annog dysgwyr i fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg trwy ddarparu sesiynau tiwtor a gweithgareddau trawsbynciol i ymarfer iaith lafar, mewn grwpiau neu drwy sesiynau un-i-un.

Mae'r ysgol hefyd yn gweithio gyda rhieni fel eu bod hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r iaith.

Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion gwahanol grwpiau dysgwyr ac agweddau ar y cwricwlwm, trwy sefydlu grwpiau i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn ogystal â darparu pontio i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 5 a 6. Mae dysgwyr wedi cael eu graddio yn seiliedig ar eu gofynion cymorth fel y gellir darparu cymorth wedi'i dargedu, sy'n cynnwys gwaith un-i-un gyda'r tîm bugeiliol, sesiynau mentora, a chymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Trwy ddysgu cyfunol a chydweithio ag ysgolion eraill, gellir rhannu adnoddau ac arbenigedd i wella'r cymorth a ddarperir i ddysgwyr.

Mae'r ysgol yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion i ddefnyddio sgiliau trawsbynciol i ddatblygu rhaglen ddysgu gytbwys.



## Ysgol Gynradd Hengastell

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw Hengastell gyda 445 o ddysgwyr. Mae hyrwyddwyr llesiant wedi gweithio gyda phob grŵp blwyddyn ar sgiliau bywyd allweddol. Mae dysgwyr wedi cael profiad o sut i goginio, tyfu llysiau a gwnïo sylfaenol, a dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd cadw'n iach.

Mae ci llesiant bellach yn rhan o'r tîm, yn cefnogi mwy o ddysgwyr pryderus sy'n cyrraedd yr ysgol bob bore, ac yn gweithio gyda grwpiau targed yn ystod sesiynau 'Thrive' a llesiant. Mae'r grant 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau' hefyd wedi'i ddefnyddio i gyflogi Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd sydd wedi'i hyfforddi yn y dull Thrive o weithio gyda dysgwyr a'u teuluoedd. Mae'n mynd i'r afael â materion presenoldeb gan ddefnyddio cymysgedd o ddulliau, gan gynnwys sesiynau un-i-un, grwpiau anogaeth, cyfarfodydd presenoldeb, a chysylltu ag asiantaethau allanol.

Cynhelir rhaglen gyfoethogi strwythuredig bob prynhawn dydd Gwener a gyflwynir gan holl staff yr ysgol. Mae hon yn cynnig ystod o weithgareddau, sgiliau a phrofiadau. Trwy hyn, caiff pob dysgwr fynediad at yr un cyfleoedd. Mae gweithwyr proffesiynol allanol yn aml yn cymryd rhan, ac mae rhwydwaith o aelodau o'r gymuned bellach yn bodoli. O ganlyniad i'r grant a'r prosiectau y mae wedi'u cefnogi, mae perthynas agosach rhwng yr ysgol, rhieni, a'r gymuned. Mae presenoldeb wedi gwella ar draws yr ysgol gyfan, yn fwyaf nodedig ymhlith dysgwyr â phryderon ynghylch mynychu'r ysgol. Mae ymddygiad wedi gwella, gyda sesiynau Thrive a phersonol ar gael i'w harchebu neu eu cyrchu ar unwaith.

## Ysgol Gynradd Corneli

Yn 2015, agorodd Ysgol Gynradd Corneli gynllun cynilo, mewn partneriaeth ag Undeb Credyd Pen-y-bont ar Ogwr Lifesavers. Ers hynny, mae Ysgol Gynradd Corneli wedi ennill gwobr Undebau Credyd Cymru am gynnig fideo ac wedi cael ei henwebu ar gyfer Partneriaeth Ysgolion Undebau Credyd Cymru. Mae bron pob un o'r disgyblion a'r teuluoedd bellach yn deall manteision cynilo rheolaidd a rheolaeth ariannol. Trwy lais y disgybl, mae disgyblion hŷn wedi cymryd perchnogaeth, gan weithio ochr yn ochr â staff a llywodraethwyr i reoli darpariaeth cynilion wythnosol yn llwyddiannus. Mae mwyafrif y staff, yn ogystal ag aelodau o'r gymuned, yn cynilo'n wythnosol fel enghreifftiau i'r disgyblion. Mae'r ysgol wedi creu cyd-destun bywyd go iawn lle gall disgyblion gynilo at ddiben.

Mae'r ysgol wedi ehangu ei hwythnosau mentergarwch ac wedi chwarae rhan annatod wrth ddatblygu 'pedwar diben' y Cwricwlwm i Gymru. Mae safonau llythrennedd ariannol wedi cynyddu ar draws yr ysgol, gan effeithio ar sgiliau datrys problemau a meddwl. Mae effaith fwy cadarnhaol wedi datblygu ar agweddau tuag at reolaeth ariannol yn y gymuned, yn ogystal â gwell sgiliau bywyd a sgiliau cymdeithasol sydd eu hangen i ffynnu mewn cymdeithas, a gwell cyfleoedd bywyd ac ansawdd bywyd, ac i alluogi dyheadau ar gyfer cyflogaeth a llesiant economaidd yn y dyfodol.

## Datblygiad Cosy Corner

Ym mis Hydref 2020, daeth y gwaith adfywio arfaethedig ar safle Cosy Corner, gan Credu, i ben a dychwelodd y safle i'r cyngor fel safle adeiladu a ddechreuwyd yn rhannol. Rydym ni eisiau datblygu'r safle amlwg a gwerthfawr hwn ar gyfer cyfleuster cymunedol. Rydym wedi gweithio gyda Croeso Cymru i ddatblygu dyluniad a sicrhau cyllid ac, ym mis Mai 2021, penodwyd penseiri i ddatblygu adeilad gwydr a cherrig unllawr sy'n cynnwys cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys toiledau hygyrch a chyfleuster man newid, cyfleusterau newydd i ddeiliaid angorfeydd y marina a'r harbwrfeistr, siopau a bwyty. Bydd yr adeilad hwn wedi'i amgylchynu gan dir wedi'i dirlunio a bydd ganddo ardal chwarae i blant ac eisteddleoedd awyr agored.

Sicrhawyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, rhoddwyd caniatâd cynllunio, ac ym mis Mai 2022 dyfarnwyd y contract adeiladu i John Weaver Construction. Bydd y safle'n cael ei gwblhau, ei agor a'i feddiannu gan fusnesau newydd erbyn mis Awst 2023 a bydd yn gwella'r cynnig twristiaeth a chymunedol ar lan y dŵr ym Mhorthcawl yn aruthrol yn ogystal â darparu cyfleoedd busnes a chyflogaeth.



Blaenoriaeth

# 2 | Helpu cymunedau a phobl i fod yn iachach ac yn fwy gwydn



## Rydym am ddarparu cymorth i helpu unigolion a theuluoedd i ffynnu.

Mae ffocws ar atal a llesiant yn ein helpu i gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol ac yn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn dod yn ddibynnol ar wasanaethau'r cyngor.


Ein prif ffyrdd o gyflawni'r amcan hwn yw:

- **Cymorth a gwasanaethau cymunedol** – Darparu cymorth a gwasanaethau i'r rhai sydd angen ein cymorth a'u helpu i aros yn annibynnol cyhyd â phosibl.
- **Cymunedau gwydn** – Datblygu ffyrdd arloesol o wella llesiant a darparu gwasanaethau.
- **Iechyd a llesiant** – Gwella llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol plant a phobl ifanc a dinasyddion agored i niwed.



# Beth yw ein barn ni?

## Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach ac yn fwy gwydn



**Digonol**

- **Gwasanaethau cymdeithasol** – Mae cynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol plant yn parhau, gan gynnwys pobl yn cysylltu â gofal cymdeithasol y mae angen ymchwiliadau diogelu arnynt. Mae heriau ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol ac anawsterau recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol. Rydym wedi canolbwyntio ar wella ansawdd a pherfformiad. Mae ein cynlluniau i wella recriwtio a chadw'r gweithlu yn cynnwys defnyddio gweithwyr asiantaeth i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol, dod â swyddogion cymorth gweithwyr cymdeithasol i mewn i dimau rheoli achosion, cyflwyno taliadau atodol ar sail y farchnad i gyflogau mewn rhai timau, datblygu siarter gweithwyr cymdeithasol, a recriwtio swyddog i hyrwyddo'r cyfleoedd mewn rolau gofal cymdeithasol. Rydym yn gwneud cynnydd o ran recriwtio rhyngwladol. Mae gweithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant a secondeion yn cael eu cefnogi i'n helpu i ddatblygu gweithlu gweithwyr cymdeithasol proffesiynol yn y tymor hir. Rydym hefyd yn sicrhau y gellir darparu cymorth llesiant arbenigol.

- **Gwasanaethau plant** – Mae darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn dal yn anodd iawn ond rydym yn gwneud cynnydd ar ein prif flaenoriaethau o wella ymarfer, y gweithlu, darparu gwasanaethau, clywed llais pobl a gweithredu arno, a gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i baratoi, deall a gweithredu ar ddysgu o'r adolygiad ymarfer plant a'n hadolygiadau mewnol ein hunain, gan gynnwys cynlluniau chwe wythnos a chwe mis ar gyfer pob rhan o ofal cymdeithasol plant. Rydym wedi cadw ein strwythurau llywodraethu aur, arian ac efydd i ymdrin â lefelau uchel parhaus o gysylltiadau â'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth a gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'r gwasanaethau hyn wedi'u hadolygu a chytunwyd ar fodel ar gyfer y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth. Rydym wedi penodi arweinydd ar gyfer trawsnewid gweithwyr cymdeithasol, sydd wedi dechrau rhoi model ymarfer 'Arwyddion Diogelwch' ar waith i ysgogi gwelliant mewn ymarfer. Rydym yn gwreiddio dysgu â ffocws o archwiliadau ac adolygiadau a data perfformiad gwell i sicrhau bod rheolwyr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn barhaus. Rydym wedi cynnal adolygiad o'n darpariaeth breswyl ac wedi cryfhau arweinyddiaeth drwy benodi unigolyn cyfrifol penodedig. Rydym wedi gwella ein fframwaith sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau preswyl i blant. Bydd y ddarpariaeth breswyl unigol a gofrestrwyd ym mis Tachwedd 2022 yn adeiladu capasiti yn ein gwasanaethau preswyl.



- **Gwasanaethau oedolion** – Bu heriau o ran diwallu anghenion gofal a chymorth mewn modd amserol yn y gwasanaethau oedolion. Rydym yn gwella ein gwasanaethau cwsmeriaid ac amserau ymateb i ymholiadau cychwynnol trwy'r prosiect Adolygu Gwaith Cymdeithasol a'r prosiect Drws Ffrynt Corfforaethol a thrwy gyflwyno'r systemau ffôn newydd. Rydym yn canolbwyntio ar ymarfer gwaith cymdeithasol sy'n seiliedig ar gryfderau ac mae sicrwydd ansawdd a goruchwyliaeth gan reolwyr yn cael eu cryfhau. Mae model ymarfer newydd, sef 'Canolbwyntio ar Ganlyniadau, Seiliedig ar Gryfder', wedi'i lansio a fydd yn cryfhau ymhellach sut rydym yn deall ac yn gweithredu ar yr hyn sy'n bwysig i unigolion. Mae pwysau i ddiwallu anghenion pobl hŷn yn flaenoriaeth uchel. Rydym yn rhoi llwybrau newydd ar waith i wella'r prosesau rhyddhau o'r ysbyty, er bod capasiti mewn gwasanaethau gofal cymunedol yn dal i fod yn her fawr. Rydym yn moderneiddio gwasanaethau gofal cartref mewnol, yn cael gwared ar 'shifftiau hollt', ac yn recriwtio i swyddi gwag mewn rolau gofal a chymorth. Mae archwiliadau dwfn yn cael eu gwneud ym mhob tîm gwaith cymdeithasol i oedolion a bydd model gweithredu newydd yn cael ei gymeradwyo yn 2023. Lle bu angen newidiadau yn gyflymach, maent wedi'u gwneud. Rydym yn trosglwyddo gwasanaeth teleofal y cyngor o analog i ddigidol ac yn gwella'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol i wella canlyniadau i bobl. Rydym yn adolygu ein gwasanaethau anabledd dysgu uniongyrchol i wneud yn siŵr bod gennym ni fodel cyfleoedd dydd a byw â chymorth cynaliadwy.

- **Diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** - Cwblhawyd ein Cynllun Gweithredu ADY 2022-2023 a sefydlwyd prosesau ADY y Blynyddoedd Cynnar a'u hymgorffori. Gwnaethom barhau i fonitro sicrwydd ansawdd cynlluniau datblygu unigol yr awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr a'r defnydd o becynnau cymorth ADY y Blynyddoedd Cynnar gan leoliadau Blynyddoedd Cynnar. Gwnaethom gynnal digwyddiadau ar gyfer staff ysgolion a phartneriaid i gefnogi'r rhai sy'n ymwneud â diwygio ADY. Estynnwyd ein darpariaethau ar gyfer dysgwyr oed cynradd ag ADY, gan agor dwy ganolfan adnoddau dysgu newydd yn nhymor yr hydref 2022 - un yn Ysgol Gynradd Tremains ar gyfer disgyblion ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, ac un yn Ysgol Cynwyd Sant ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol.

- **Diogelu** – Rydym yn atebol i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol am wneud yn siŵr ein bod yn diogelu plant ac oedolion mewn perygl. Maent yn gyfrifol am gyhoeddi adolygiadau ymarfer plant/oedolion. Cyhoeddwyd un adolygiad ymarfer ar gyfer plant ac un ar gyfer oedolion yn 2022/23 am Ben-y-bont ar Ogwr. Bydd pedwar adolygiad ymarfer plant arall yn cael eu cyhoeddi yn y flwyddyn i ddod. Rydym yn cynnal Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth lle mae swyddogion y cyngor ac asiantaethau partner yn cydweithio i ymateb i bryderon diogelu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cryfhau arweinyddiaeth a llywodraethu gwasanaethau gofal cymdeithasol trwy gyflogi unigolion cyfrifol penodedig sy'n goruchwylio diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd o'r Grŵp Diogelu Corfforaethol bob mis, lle caiff data diogelu ei adolygu. Cynhelir cyfarfodydd grŵp arian bob pythefnos / yn wythnosol dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol i ystyried data perfformiad a meysydd pwysau fel bod y cyngor cyfan yn deall beth sy'n digwydd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn adrodd i fyny bob pythefnos i gyfarfod trefn reoli aur a gadeirir gan y Prif Weithredwr ac a fynychir gan yr Arweinydd / Dirprwy Arweinydd. Rydym wedi gwella'r ffordd yr ydym yn diogelu plant sydd mewn perygl o niwed rhag camfanteisio troseddol neu rywiol. Mae dau swyddog wedi'u penodi a phanel camfanteisio wedi'i sefydlu sy'n dod â phartneriaid ynghyd i fynd i'r afael â'r risgiau. Mae gennym hefyd Fwrdd Diogelu Addysg sy'n cyfarfod bob tymor ac yn archwilio data ac arferion diogelu ar draws y gyfarwyddiaeth. Mae gwybodaeth yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau yn cael ei rhannu.  Mae pob ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi mabwysiadu polisi'r Bwrdd Diogelu.  Mae ysgolion yn cynnal archwiliadau o'u dull diogelu ac mae 90% o ysgolion wedi'u graddio'n wyrdd, 10% yn oren, ac nid oes yr un ohonynt yn goch.

- **Tai** – Newidiodd dyletswyddau tai'r cyngor yn ystod y pandemig a rhaid i ni ddarparu llety i bawb sy'n ddigartref. Mae pobl sy'n dweud eu bod yn ddigartref a nifer y bobl ar y gofrestr ar gyfer tai cymdeithasol wedi cynyddu. Bu'n rhaid i ni ddibynnu ar wahanol opsiynau, gan gynnwys gwestai a llety Airbnb, i ddarparu llety dros dro gan na ellir cyflenwi digon o lety addas trwy ein cyflenwad arferol o lety. Yn ystod 2022/2023, rydym hefyd wedi gorfod darparu tai ar gyfer dinasyddion Wcráin sy'n ffoi rhag y rhyfel yn eu gwlad. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd 198 o unigolion Wcráin wedi cyrraedd yr awdurdod lleol, ac mae 100 o'r rhain wedi dod o hyd i dai yn yr ardal. Mae'r cyngor hefyd wedi gweithio gydag un o'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddod â 35 o dai gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd.

- **Diogelwch cymunedol** – Rydym wedi delio â 1,219 o atgyfeiriadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac aethpwyd i'r afael ag 88% yn llwyddiannus yng Ngham 1. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i wella cwmpas teledu cylch cyfyng, bywiogi gofodau gyda chelf stryd, a chyflogi marsialiaid tacsis fel nad oes neb yn aros ar ei ben ei hun ar ôl noson allan. Mae'r adolygiad o drefniadau diogelwch cymunedol rhanbarthol wedi'i gwblhau. Mae gwasanaeth cam-drin domestig Assia wedi cwblhau asesiadau anghenion ar 2,010 o atgyfeiriadau. Rydym wedi cynnal gweithdai cam-fanteisio ar gyfer myfyrwyr coleg a thiwtoriaid a hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth. Mae holl gynrychiolwyr y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg ar draws y rhanbarth wedi cael eu hyfforddi'n llawn yn y broses ac yn deall eu rôl. Arweiniodd adolygiad SafeLives at recriwtio Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig pwrpasol i bobl hŷn ochr yn ochr â'n Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig i ddioddefwyr gwryw. Rydym yn cadeirio ac yn cyfrannu at y Grŵp Cynghori a Diogelwch Digwyddiadau cyd-asiantaethol lleol, sy'n cynghori'r rhai sy'n cynnal digwyddiadau ar asesiadau risg a diogelwch cyffredinol a chynllunio arfer da ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus.

- **Mannau hamdden, gwyrdd ac agored** – Ym mis Tachwedd 2022, cymeradwyodd y cyngor Gynllun Bioamrywiaeth 2022-25, gan osod ein cynlluniau i warchod a gwella bioamrywiaeth. Mae'n cynnwys prosiectau newydd ar safle'r olchfa glo segur yng Ngolchfeydd Ogwr a phrosiect "Trwy'r Twyni Tywod", gan ddod â rheolwyr gwarchodfeydd natur, gwirfoddolwyr a thirfeddianwyr ynghyd i reoli cynefinoedd ar hyd arfordir Pen-y-bont ar Ogwr yn gynaliadwy. Mae rhaglen gynhwysfawr o welliannau i fannau chwarae plant yn parhau gyda naw maes chwarae wedi'u cwblhau yn 2022. Mae buddsoddiad pellach o £2.9 miliwn mewn meysydd chwarae ar draws y fwrdeistref wedi'i dargedu ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, gan gynnwys cyfleusterau chwarae hygyrch, megis cylchfannau sy'n gyfeillgar i gadeiriau olwyn. Rydym wedi trosglwyddo deg ased arall yn 2022-23 drwy'r rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol. Mae hyn yn is na'r targed, ond mae'n adlewyrchu'r chwyddiant mewn costau y mae pawb yn ei brofi.

- **Cyfiawnder ieuenctid** – Roedd gostyngiad yn nifer y newydd-ddyfodiaid i Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr a gostyngiad mewn ymddygiad aildroseddu ymhlith plant a phobl ifanc. Yn unol â 'Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021', datblygwyd system gadarn i fonitro addysg, hyfforddiant a chyflogaeth pobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a sicrhau bod anghenion addysg yn cael eu diwallu. Parhaodd y gwasanaeth i gasglu a chyflwyno barn defnyddwyr gwasanaeth ar ddarpariaethau addysg. Roedd cynllun achredu mewnol yn galluogi gwaith addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a wnaed gan ddefnyddwyr gwasanaeth i gael ei gydnabod a'i ddyfarnu'n unol â hynny. Gwnaeth y cyngor gais hefyd am gyllid drwy'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid, drwy ei Rownd Ariannu Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma, a ariennir ar y cyd gan y Swyddfa Gartref, sy'n ariannu prosiectau sy'n ceisio cael gwybodaeth am strategaethau llwyddiannus i atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais. Byddai'r prosiect 'Meithrin Perthynas Gyda'n Gilydd' hwn yn ein helpu i edrych ar sut y gall gwasanaethau sy'n defnyddio'r Model Adfer o Drawma fod o fudd i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan drawma.

- **Cymorth i deuluoedd** – Cefnogodd gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal 527 o blant, gan atal dros 90% ohonynt rhag cael profiad o fod mewn gofal. Sicrhawyd cyllid i barhau i ddatblygu dull sy'n ystyriol o drawma. Gweithredwyd y 'Gwasanaeth Rise' yn llwyddiannus, gan ddarparu cymorth ymarferol, emosiynol a therapiwtig i deuluoedd. Er gwaethaf cymhlethdod cynyddol yr achosion a gefnogir gan staff cymorth cynnar, cafodd 75% o gynlluniau cymorth y Tîm o Amgylch y Teulu eu cau gyda chanlyniad llwyddiannus, sef 2% yn uwch nag yn 2021-2022. Rhoddodd Arolygiaeth Cymru gategori 'da' neu well i'n holl leoliadau Dechrau'n Deg.

- **Atal a llesiant** – Mae'r gwasanaethau hyn yn gwella'n raddol o'r pandemig gyda ffocws ar gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed ac atal anghenion rhag gwaethygu. Rydym yn cynnwys gweithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) i ddatblygu rhwydweithiau cynrychioliadol cymunedol sy'n cefnogi atal a llesiant, gweithredu ein Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a datblygu Chwaraeon Anabledd, cefnogi datblygiad cymunedau oed-gyfeillgar, a rhedeg rhaglenni cymorth i deuluoedd, gan gynnwys y Parth Actif i Deuluoedd, Camau i Famau a chyfleoedd i'r Blynyddoedd Cynnar. Mae gwasanaethau i ofalwyr wedi'u hadolygu a'u gwella, gan gynnwys datblygu cerdyn adnabod gofalwyr. Fel gwasanaethau eraill sy'n defnyddio llawer o ynni, mae lleoliadau hamdden o dan bwysau sylweddol o ran costau.



## Sicrwydd gan reoleiddwyr

Canfu arolygiad gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn 2022 welliant sylweddol yn ein Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Ers hynny, mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr wedi cryfhau ymhellach ei strwythur rheoli, ei gydberthynas â phartneriaid, y gwasanaeth ataliol a gynigir a'i system i newydd-ddyfodiaid, i roi gwasanaethau da ac amserol i blant sydd angen cymorth. Nid yw'r gwasanaeth bellach o dan fesurau arbennig ac mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi dileu unrhyw waith monitro ffurfiol o'r gwasanaeth.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Arolygiad Gwerthuso Perfformiad o ofal cymdeithasol plant, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022. Nodwyd nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella lle'r oedd ganddynt bryderon sylweddol. Roedd y Bwrdd Gwella Canlyniadau i Blant, a gadeiriwyd gan y Prif Weithredwr ac a lywiwyd gan gynghorydd annibynnol, yn canolbwyntio ar gyflawni camau gweithredu yn y cynllun strategol tair blynedd i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a gwneud gwelliannau.

Cynhaliodd AGC wiriad gwella dilynol ym mis Tachwedd 2022 a ganfu fod gwelliannau wedi'u gwneud ond bod angen camau gweithredu pellach, felly mae angen gwella gwasanaethau plant yr awdurdod o hyd. Mae tystiolaeth gan gynghorau eraill sydd wedi bod mewn sefyllfaoedd tebyg yn dweud wrthym bod tair blynedd yn amserlen realistig ar gyfer symud ymlaen o fod yn wasanaeth lle mae pryderon difrifol i un y mae angen ei wella (ar ddiwedd Blwyddyn 1) i berfformiad digonol ac yna perfformiad da. Ac mae angen dealltwriaeth a gweithredu ar draws y cyngor i wella. Byddwn yn profi cynnydd yn erbyn ein cynllun tair blynedd yn y misoedd nesaf ac yn cyflwyno cynllun wedi'i ddiweddaru i'r cabinet ym mis Medi 2023. Bydd hwn yn gynllun cynaliadwyedd, strategaeth ariannol, cynllun gweithlu a chynllun gweithredu.

Cynhaliwyd nifer o arolygiadau o wasanaethau gofal rheoleiddiedig hefyd. Lle mae hysbysiadau gweithredu ar flaenoriaethau neu welliannau wedi'u nodi, gwnaed cynnydd da mewn arolygiadau dilynol yn y mwyafrif helaeth o achosion.



## Ymgynghoriadau a gweithgareddau ymgysylltu

| Ymgynghori / ymgysylltu | Dyddiadau | Effaith |
|---|---|---|
| Ymgysylltu ar yr asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae | Mawrth 2022 – Tachwedd 2022 | Ystod amrywiol o ymarferion ymgysylltu ar gyfleoedd a chyfleusterau chwarae gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai ag anghenion amrywiol. |
| Fforwm ieuenctid i'r rhai sydd â phrofiad o ofal a'r rhai sy'n gadael gofal | Yn parhau | Cyfarfod yn rheolaidd i lywio amrywiaeth o waith –<br>• adroddiadau blynyddol y Cyfarwyddwr<br>• recriwtio a dethol ar gyfer amrywiaeth o swyddi yn y Gwasanaethau Plant<br>• clipiau cyfryngau i hyfforddi aelodau<br>• y brand / strategaeth rhianta corfforaethol<br>• enw cartref preswyl newydd i blant<br>• ymgynghoriad ar y polisi cynilo a gwerthuso adolygiadau gofalwyr maeth |
| Diwygio gofal | Yn parhau | Mae dau unigolyn ifanc yn cynrychioli Fforwm Plant â Phrofiad o Fod mewn Gofal Pen-y-bont ar Ogwr fel llysgenhadon Lleisiau o Ofal Cymru. Maent wedi bod yn rhan o uwch-gyfarfod gyda Gweinidogion i drafod diwygio'r system ofal yng Nghymru. Y canlyniad fu datganiad ar ddiwygio radical i'r system ofal a chynhyrchu adroddiad Senedd Cymru 'Os nad nawr, pryd?' |
| Hyrwyddo eiriolaeth | Cyfarfodydd rheolaidd | Gwaith ymgysylltu, gan gynnwys yr eiriolwr lleol yn mynychu Grŵp Diogelu a Diogelwch Cymunedol Ardal Pen-y-bont ar Ogwr, hyrwyddo eiriolaeth fel rhan o fonitro contractau arferol gyda darparwyr, a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Anabledd Dysgu, Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr, yn cael ei ymgorffori mewn grwpiau rhanddeiliaid lleol. |
| Cyfarfodydd cymunedol mewn gwasanaethau gofal cartref | Chwarterol | Adborth ar feysydd, gan gynnwys gweithgareddau iechyd a llesiant, iechyd a diogelwch, cymunedol ac 'yn y cartref'. |
| Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr, grŵp eiriolaeth annibynnol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth | Cyfarfodydd rheolaidd | Cyfraniadau at ddatblygu gwasanaethau. Gan gynnwys eiriolaeth, hunaneiriolaeth, dogfennaeth hawdd ei deall, cefnogaeth i gynrychiolaeth mewn grwpiau cynllunio, a chymorth gyda datblygu gwasanaethau. |

| Ymgynghori / ymgysylltu | Dyddiadau | Effaith |
|---|---|---|
| Grŵp ar gyfer pobl sydd â phrofiad o gamddefnyddio sylweddau | Cyfarfodydd rheolaidd | Cyswllt i grwpiau rhanbarthol tebyg. Cymryd rhan mewn penodiadau / datblygiadau gwasanaeth. |
| Rhwydwaith gofalwyr ifanc | Bob chwarter – wedi ymgysylltu â dros 280 o ofalwyr ifanc | Cafodd gweithdai llesiant eu cydgynhyrchu a'u cynnal, mewn partneriaeth â gofalwyr ifanc, sef diwrnodau "Fe'ch Gwerthfawrogir". Mae llysgenhadon gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn arwain y grŵp rhwydwaith. Creodd a chydgynhyrchodd Grŵp Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc gyfleoedd i gefnogi llesiant corfforol a meddyliol. |
| Teimlo'n Dda am Oes | Awst 2022 | Mae'r Loteri Genedlaethol wedi darparu pum mlynedd o fuddsoddiad i ddatblygu'r gwaith ymhellach a datblygu dysgu a mewnwelediad i'r rhaglen Teimlo'n Dda am Oes. |
| Sgyrsiau Yr Hyn sy'n Bwysig gan y gwasanaeth llesiant gofalwyr | 410 o sgyrsiau | Derbyniodd 581 o bobl wybodaeth, cyngor neu gymorth, gan gynnwys cyfeirio. |
| Ymgynghori ar brofiadau defnyddwyr gwasanaeth | Mai 2023 | Pedwar holiadur ar-lein i lywio adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a sut i wella ein gwasanaethau. Bydd dadansoddiad o'r canfyddiadau yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol 2022/23. |
| Strategaeth ddigartrefedd | Drwy gydol y flwyddyn | Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid yn ystod y flwyddyn wrth ddatblygu'r strategaeth ddigartrefedd newydd. Roedd hyn yn cynnwys cyfweliadau gyda swyddogion ac aelodau etholedig, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid ac arolwg ar-lein. Mae'r canfyddiadau wedi'u cynnwys yn y strategaeth ddigartrefedd a'r cynllun gweithredu. |

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr hunanasesiad yn dangos y canlynol:

- Roedd 52% o'r ymatebwyr yn credu ein bod wedi darparu digon o dystiolaeth o'n gweithredoedd / cynnydd
- Roedd 50% o'r ymatebwyr yn credu ei bod yn amlwg beth arall yr ydym wedi'i gynllunio
- Roedd 58% o'r ymatebwyr yn meddwl bod y dyfarniad 'Da' fwy neu lai yn gywir

Y prif faterion a godwyd yn y cwestiynau agored am yr amcan llesiant hwn oedd:

- Nid yw canol trefi yn teimlo'n ddiogel – mae cyffuriau ac alcohol ym mhobman
- Nid oes digon i blant ei wneud ac nid yw meysydd chwarae yn ddigon da
- Dylid canolbwyntio mwy ar lendid a chynnal a chadw mannau agored

## Beth fyddwn yn ei wneud i wella?

Dyma rai o'r prif welliannau y byddwn yn eu gwneud ar gyfer y flaenoriaeth hon:

- Byddwn yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg sylfaenol i oedolion 50%.
- Gan weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn cymryd y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu ADY ar gyfer 2023-2024.
- Byddwn yn datblygu model gweithio clwstwr effeithiol yn cynnwys cydlynwyr ADY a byddwn yn hyfforddi hyrwyddwyr cynlluniau datblygu unigol (CDU) o fewn clystyrau ADY.
- Mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin, ein nod yw darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Metws ac yng Nghwm Ogwr erbyn Medi 2023.
- Byddwn yn sicrhau bod darpariaeth gyffredinol o brydau ysgol am ddim ar gael i ddisgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 o Ebrill 2023 a disgyblion mewn dosbarthiadau meithrin o fis Medi 2023.
- Cwblhau'r broses o uno'r partneriaethau diogelwch cymunedol i greu un Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer Cwm Taf Morgannwg a pharhau i sicrhau bod materion lleol yn cael eu hystyried mewn modd amserol.
- Ymgynghori ar ein strategaeth ddigartrefedd ddrafft newydd a chael yr aelodau i gytuno arni.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau eraill ar ein hymagwedd at gartrefu ffoaduriaid (gan gynnwys ffoaduriaid o Wcráin).
- Gwella ein gwaith gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i wella opsiynau tai.
- Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithlu gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys recriwtio rhyngwladol a 'thyfu ein gweithlu ein hunain' at y dyfodol.
- Gwella cysondeb ymarfer gwaith cymdeithasol ym maes gofal cymdeithasol plant, sy'n cefnogi canlyniadau gwell, yn galluogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd (lle bynnag y bo modd), ac yn diogelu pobl rhag niwed trwy weithredu ein model Arwyddion Diogelwch o ymarfer gwaith cymdeithasol.

- Gwella canlyniadau i oedolion ag anghenion gofal a chymorth drwy roi ein model ymarfer gwaith cymdeithasol ‘Canolbwyntio ar Ganlyniadau, Seiliedig ar Gryfder’ ar waith.
- Agor ein gwasanaeth gofal preswyl plant newydd a rhoi cymorth therapiwtig gwell ar waith ar gyfer ein holl wasanaethau gofal preswyl a maethu mewnol.
- Cyflwyno blwyddyn gyntaf cynllun cynaliadwyedd ar gyfer plant a theuluoedd.
- Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol.
- Gweithio ar wasanaethau osgoi derbyniadau a rhyddhau gyda’r GIG i leihau oedi cyn i bobl dderbyn gofal.
- Datblygu gallu mewn gwasanaethau ail-alluogi fel bod mwy o bobl yn gallu cael eu cefnogi i gadw neu adennill sgiliau byw’n annibynnol.
- Darparu gwell cefnogaeth i oedolion a gofalwyr ifanc trwy rwydweithiau gofalwyr.
- Gwella llesiant a chefnogaeth ataliol ym mhob rhan o’r sir trwy benodi cydlynwyr cymunedol lleol.
- Moderneiddio gwasanaethau anabledd dysgu i sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i fyw mor annibynnol â phosibl a mwynhau pethau ystyrlon i’w gwneud yn ystod y dydd.
- Codi ymwybyddiaeth o Ddyletswydd Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr 2022-2025.
- Parhau i symud ymlaen â throsglwyddo asedau cymunedol.



# Astudiaethau achos

## Teleofal

Mae teleofal yn cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain pan fydd angen cymorth arnynt i aros yn annibynnol. Mae'n cynnig y sicrwydd o wybod y gall rhywun helpu 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae pecynnau teleofal yn cael eu teilwra i anghenion unigolion, ac yn addasu wrth i anghenion pobl newid. Yn 2017, cyhoeddodd BT gynlluniau i ddiffodd ei rwydwaith ffôn analog a rhoi datrysiad digidol yn ei le. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i ni newid i dechnoleg ddigidol, a phenderfynasom ddod yn un o'r awdurdodau Cymreig cyntaf i wneud hyn. Cytunwyd ar gyllid o £1.4 miliwn ar gyfer y prosiect fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb a thîm y prosiect sy'n rheoli'r gyllideb hon. Mae tîm y prosiect yn gweithio gyda'r gosodwyr, sef Gofal a Thrwsio. Ar hyn o bryd, mae'r gosodiadau amnewid sy'n weddill yn digwydd fesul ardal cod post. Bydd cam nesaf y prosiect yn gweld gosodiadau newydd yn digwydd.





## Super-Agers

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi arwain prosiect rhanbarthol o'r enw Super-Agers i gefnogi oedolion hŷn i gael bywydau iach ac egnïol ac i fod yn gysylltiedig â chymorth yn eu cymuned. Mae'r rhaglen wedi cynnwys sesiynau ymarfer a gweithgareddau yn y gymuned a hefyd wedi hyfforddi oedolion hŷn i arwain a rhedeg eu gweithgareddau eu hunain. Mae rhaglen Super-Agers wedi cynnwys digwyddiadau fel y gemau 'OlympAGE', gan gynnwys dulliau sy'n pontio'r cenedlaethau gyda phobl ifanc o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr ac ysgolion uwchradd lleol. Mae £3.80 o werth cymdeithasol wedi'i ddarparu am bob punt a fuddsoddwyd. Mae pobl sydd wedi gwneud y gweithgareddau wedi gwerthfawrogi'r cymorth a ddarparwyd, y cyfleoedd i gael rhyngweithio cymdeithasol a meithrin cysylltiadau yn eu cymunedau, a'r cyfleoedd i gael gwybodaeth a chyngor mewn lleoliadau llai ffurfiol.

## Rhianta corfforaethol

Rydym wedi lansio Strategaeth Rhianta Corfforaethol newydd yn ddiweddar. Bu'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol, a gadeiriwyd gan y Dirprwy Arweinydd, yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, pobl ifanc sy'n gadael gofal, a Fforwm Llais Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr i gyd-gynhyrchu'r ddogfen, gan weithio gyda swyddogion y cyngor, asiantaethau partner ac aelodau etholedig. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion, safbwyntiau a dymuniadau ein plant a'n pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal i'w helpu i fyw bywydau hapus a bodlon. Mae'n cynnwys rhestr o addewidion a wnaed gan dros 40 o weithwyr proffesiynol, gofalwyr a chynghorwyr, gan nodi eu hymrwymiad eu hunain i blant a phobl ifanc. Mae'r strategaeth wedi'i chroesawu gan Gomisiynydd Plant Cymru a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, a ymwelodd y ddau ohonynt â Phen-y-bont ar Ogwr i lansio'r strategaeth. Hwyluswyd y digwyddiad lansio ei hun gan wyth cynrychiolydd o Fforwm Llais Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr.



## Arwyddion Diogelwch

Mae Gofal Cymdeithasol Plant yn gweithio gyda'r unig ymgynghorydd Arwyddion Diogelwch trwyddedig yng Nghymru i weithredu'r fframwaith Arwyddion Diogelwch. Mae'n fframwaith amddiffyn plant sy'n defnyddio dull cwestiynu, ac yn canolbwyntio ar y cryfderau mewn teuluoedd i sicrhau diogelwch a gofal da. Mae'r fframwaith yn defnyddio asesiadau, datganiadau perygl a nodau diogelwch i helpu gweithwyr proffesiynol a theuluoedd drwy'r broses amddiffyn plant. Cyflwynodd Gofal Cymdeithasol Plant Arwyddion Diogelwch i'w weithlu ac asiantaethau partner yn ystod dau ddiwrnod lansio ym mis Mawrth a thrwy ddau weithdy amlasiantaeth ym mis Ebrill.

Cyflwynodd y Tîm Arwain hefyd eu Haddewid Arweinyddiaeth, a oedd yn amlygu eu hymrwymiad i staff a'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw. Mae staff wedi mynychu diwrnodau hyfforddi ac ymarfer i'w helpu i ddefnyddio'r dull arwyddion diogelwch.

Mae yna hefyd ffrydiau gwaith sy'n canolbwyntio ar fesurau ystyrlon, alinio systemau, arweinyddiaeth a rheolaeth, dysgu a datblygu, ac asiantaethau partner. Mae gweithwyr cymdeithasol a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol wedi darparu llawer o enghreifftiau lle maent wedi defnyddio nifer o offer gwaith uniongyrchol creadigol gyda phlant i helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae teuluoedd sydd wedi bod yn rhan o ddefnyddio'r fframwaith hwn yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy cadarnhaol am ymyrraeth, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn well ac yn gallu deall y broses.

## Trosglwyddo asedau cymunedol

Hyd yma, mae'r cyngor wedi gwario neu ymrwymo £1.38 miliwn i wella asedau cymunedol, gan gynnwys, pafiliynau chwaraeon, lawntiau bowlio, mannau chwarae i blant a chanolfannau cymunedol, drwy'r rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol. Bu hwn yn fuddsoddiad mewn asedau sydd wedi'u trosglwyddo neu sydd i'w trosglwyddo i grwpiau cymunedol, clybiau chwaraeon neu gynghorau tref a chymuned i'w rheoli a'u gweithredu yn y dyfodol. Mae'r rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol yn sicrhau hyfywedd hirdymor asedau ac yn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn parhau i allu mwynhau'r buddion y mae'r asedau hyn yn eu rhoi i'r gymuned. Trosglwyddwyd deg ased pellach ym mlwyddyn ariannol 2022/23.





Blaenoriaeth

# 3

## Defnyddio adnoddau'n ddoethach



## Rydym am wneud y defnydd gorau posibl o arian cyhoeddus. Rydym am wneud defnydd callach o’n hadnoddau wrth leihau’r gostyngiadau mewn gwasanaethau.

Dros y cyfnod 2018-19 i 2022-23, gwnaeth y cyngor ostyngiadau yn y gyllideb o dros £18.5 miliwn. Wrth i gyni barhau, mae’n dod yn anoddach bob blwyddyn i wneud toriadau pellach.



Ein prif ffyrdd o gyflawni’r amcan hwn yw:

- **Trawsnewid ein hystâd** - Defnyddio ein tir a’n hadeiladau i wella’r gwasanaethau a ddarperir, lleihau costau rhedeg, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, a diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau.
- **Newid corfforaethol** – Cofleidio arloesedd a thechnoleg, a datblygu sgiliau a dulliau staff a ffyrdd newydd o weithio.
- **Cynaliadwyedd amgylcheddol** – Diogelu a gwarchod yr amgylchedd trwy ostwng ôl troed carbon y cyngor, edrych ar leihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu, a hyrwyddo cyfrifoldeb amgylcheddol mewn cymunedau.

# Beth yw ein barn ni?

## Defnyddio adnoddau’n ddoethach



- **Gostyngiadau yn y gyllideb** – Cytunwyd ar y gyllideb ar gyfer 2022-23 ym mis Chwefror 2022, cyn cynnydd mawr mewn chwyddiant, costau ynni a chostau byw. Mae hyn yn golygu bod ein cyllidebau gwasanaeth wedi bod dan bwysau difrifol yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi gorfod talu am godiadau yng nghyflogau staff, costau ynni ar draws ein holl eiddo, a chost gynyddol bwyd yn y gwasanaeth arlwyo ysgolion. Bu pwysau sylweddol hefyd ar y gyllideb gyfalaf oherwydd chwyddiant, materion cadwyn gyflenwi a diffyg staff.
- **Trawsnewid digidol** – Mae Strategaeth Ddigidol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cyflawni bod yn Gyngor Digidol. Mae'n cyd-fynd ag uchelgais strategaeth 'Digidol yn Gyntaf' Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar y canlynol: dod yn ddoethach trwy ddeall heriau, defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol, datblygu atebion integredig, a chynllunio datblygiadau yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth well. Bydd gwasanaethau digidol integredig o'r dechrau i'r diwedd yn cael eu hadeiladu o amgylch y bobl sy'n eu defnyddio, gan gyflawni ein blaenoriaethau i helpu pobl a'u cymunedau. Bydd gweithredu'r strategaeth ddigidol yn llwyddiannus yn arwain at wasanaethau gwell, buddion cymunedol wedi'u gwreiddio, integreiddio â nodau llesiant, boddhad dinasyddion, a llai o gostau gwasanaethau.
- **Ystadau** – Rydym yn edrych ar sut bydd ein hadeiladau yn cael eu gwella/ailfodelu trwy Fodel Darparu Gwasanaethau'r Dyfodol. Bydd trawsnewid digidol yn ein helpu i ddod o hyd i ffyrdd o ailfodelu, lleihau neu ddefnyddio ein gofodau swyddfa mewn ffordd fwy craff sy'n cael ei galluogi'n ddigidol. Mae ein derbyniadau cyfalaf wedi cyflawni eu targedau, wrth i werthu tir yn Salt Lake ym Mhorthcawl i Aldi gael ei gwblhau am £3.5 miliwn. Er bod ein hadeiladau'n cael eu dosbarthu fel rhai diogel, nid yw rhai targedau cydymffurfio wedi'u cyrraedd, ond maent wedi gwella'n sylweddol, gyda chydymffurfedd nwy, trydan, diogelwch tân ac asbestos yn uwch na 90%. Rydym wedi penodi swyddog legionella ac wedi comisiynu contract legionella newydd ac yn disgwyl gweld gwelliant sylweddol o ran cydymffurfedd yn y maes hwn dros y deuddeg mis nesaf.
- **Moderneiddio ysgolion** – Cwblhawyd y gwaith o adeiladu lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg Betws, a dechreuwyd ar broses i ddod o hyd i ddarparwr gwasanaeth. Daeth y prosesau ymgynghori statudol i ben ar gyfer yr Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig newydd, yr Ysgol Heronsbridge newydd a'r Ysgol Gymraeg Bro Ogwr newydd, a dechreuasom ar y cam dylunio ar gyfer y tair ysgol. Daeth cam cyntaf y broses ddylunio ar gyfer cynllun Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr i ben, a fydd yn darparu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd (hynny yw, i gymryd lle Ysgol Gynradd Afon y Felin ac Ysgol Gynradd Corneli) ac Ysgol y Ferch o'r Sgêr ar wedd newydd. Dechreuwyd ar brosesau ymgynghori mewn perthynas ag ehangiad arfaethedig i Ysgol Gynradd Coety a chynnig i sefydlu ysgol eginblanhigyn cyfrwng Cymraeg a darpariaeth gofal plant ym Mhorthcawl. Cwblhawyd ymarfer cwmpasu a chychwynnwyd y broses dendro ar gyfer cynlluniau podiau cegin, a fydd yn elfen hanfodol o'r cam gweithredu nesaf ar gyfer rhoi darpariaeth gyffredin prydau ysgol am ddim ar waith.

- **Newid corfforaethol** – Gwnaethom ddatblygu cynllun ar gyfer gweithio yn y dyfodol gyda'n staff a'n hundebau llafur, gwella gweithgareddau lles staff, a pharhau â gwaith ar ein cynlluniau 'tyfu eich hun' i ddatblygu prentisiaid a graddedigion. Mae prosiect Cyflenwi Gwasanaethau'r Dyfodol yn parhau i edrych ar y model gweithio hybrid, sy'n cynnig dull cyfunol sy'n ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir. Mae gennym rai fframweithiau rhanbarthol newydd lle rydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau ar y cyd ag awdurdodau eraill – er enghraifft, cynnal a chadw tiroedd a pheirianneg sifil.
- **Gwastraff** – Ein cyfraddau ailgylchu yw 70.49%, sy'n golygu ein bod yn un o'r prif ailgylchwyr yng Nghymru. Mae gwastraff a gynhyrchir fesul pen wedi lleihau 9% dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae 76% o bobl yn ystyried bod y gwasanaethau gwastraff yn dda iawn neu'n weddol dda. Mae'r ganolfan ailgylchu gymunedol newydd yn y Pîl wedi'i chwblhau, er nad yw'r safle wedi cael ei drwydded gweithredwr gan Cyfoeth Naturiol Cymru eto. Rydym yn ailgylchu 40% o sbwriel stryd. Mae ymgyrchoedd cyhoeddus yn mynd rhagddynt ynghylch ailgylchu gwastraff bwyd, a nodiadau atgoffa ynghylch beth i'w roi mewn cynwysyddion ailgylchu, cewynnau a gwastraff gardd. Mae negeseuon dim baeddu gan gŵn, gan gynnwys ar ein polisi gorfodi, wedi cael eu hyrwyddo. Rydym allan i dendro am gontract gwastraff interim ar gyfer 2024 i 2026. Bydd hyn yn defnyddio'r un fethodoleg cerbydau a chasglu gwastraff. Mae opsiynau ar gyfer gwasanaethau gwastraff yn y dyfodol yn cael eu paratoi ar gyfer y cyfnod ar ôl 2026.
- **Cynaliadwyedd** – Rydym yn rhan o gynllun carbon sero net Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus ac mae Pen-y-bont ar Ogwr 2030 – Strategaeth Garbon Sero Net bellach wedi'i chymeradwyo. Ni yw'r cyngor cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio Protocol Adrodd Nwyon Tŷ Gwydr newydd Llywodraeth Cymru. Rydym wedi rhoi'r rhaglen Re:fit, sef cynllun ôl-osod gwerth £1.3 miliwn, ar waith yn llwyddiannus ar 19 o adeiladau ysgol, sydd eisoes yn arbed ynni ac yn lleihau biliau cyfleustodau. Mae Cam 2 y cynllun ôl-osod yn cael ei gynllunio. Mae £3 miliwn o lwybrau teithio llesol wedi'u rhoi ar waith ac mae gennym £1.5 miliwn ychwanegol i barhau â llwybrau ar draws y fwrdeistref. Rydym wedi buddsoddi £1.3 miliwn i osod technolegau arbed ynni ac arbed costau i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau $CO_2$. Roedd hyn yn cynnwys newid pob un o'r 16,000 o oleuadau stryd yn y fwrdeistref am fylbiau LED. Rydym wedi gosod rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws y fwrdeistref, mae 27 o wefrwyr yn cael eu defnyddio, ac mae 20 yn aros am gysylltiad pŵer. Rydym yn ceisio cyflymu'r broses o drawsnewid ein fflyd. Rydym wedi rhoi strategaeth gaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol ar waith i sicrhau bod ein cyflenwyr hefyd yn canolbwyntio ar newid hinsawdd a'r economi gylchol.



## Sicrwydd gan reoleiddwyr

Ym mis Awst 2022, cwblhaodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad y cyngor. Ceisiodd yr adolygiad ateb y cwestiwn: A yw trefniadau rheoli perfformiad y cyngor yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau a gwelliannau cadarn ac effeithiol? Yn gyffredinol, canfuwyd nad yw trefniadau rheoli perfformiad y cyngor yn ei alluogi'n gyson i werthuso a rheoli ei berfformiad yn effeithiol. Yn dilyn yr adolygiad, rydym wedi gwneud gwelliannau mewn amrywiol feysydd ond mae llawer mwy i'w wneud. Mae cynllun wedi'i ddatblygu fel y gellir cytuno ar y gwelliannau hyn, eu cyfathrebu a'u monitro, gan gynnwys recriwtio i'r swydd wag sy'n weddill, datblygu a chyhoeddi fframwaith perfformiad newydd, gwella ansawdd a chywirdeb ein data, a gwella ein diwylliant perfformiad.

Cynhaliodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol adolygiad gan gymheiriaid o'n swyddogaethau cyfathrebu a marchnata yn ystod mis Chwefror 2023 a oedd yn cynnwys aseswyr yn treulio nifer o ddiwrnodau yn siarad â'r unigolion allweddol a oedd yn ymwneud â darparu'r gwasanaeth hwn, yn ceisio adborth gan randdeiliaid perthnasol, ac yn arsylwi sut mae'r cyngor yn cyfathrebu o fewn y sefydliad ac yn allanol gyda phreswylwyr. O ganlyniad, cawsom gyfres o argymhellion o'r adolygiad ac mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu ar gyfer y flwyddyn nesaf a fydd yn helpu ein dulliau cyfathrebu i fod yn fwy effeithiol ac yn fwy cyson â'n blaenoriaethau.



## Ymgynghoriadau a gweithgareddau ymgysylltu

| Ymgynghoriad | Dyddiadau | Effaith |
|---|---|---|
| Ysgol Heronsbridge | Ebrill 2022 i Fai 2022 | Daeth y prosesau ymgynghori i ben mewn perthynas ag adeiladu Ysgol Heronsbridge newydd â 300 o leoedd ar safle Island Farm. Ymgysylltu â staff a disgyblion ynghylch adleoli'r ysgol a chymeradwyaeth y cabinet ar gyfer adleoli. |
| Ysgol Gymraeg Bro Ogwr | Mawrth 2023 | Daeth prosesau ymgynghori i ben mewn perthynas â newid rheoledig i Ysgol Gymraeg Bro Ogwr ar ffurf ehangu'r ysgol i gynnig 2.5 dosbarth mynediad, meithrinfa cyfwerth ag amser llawn â 90 o leoedd, a dosbarth arsylwi ac asesu ag wyth lle. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei lleoli ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, Bracla. Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori ar ddyluniad yr ysgol. |
| Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig | Gorffennaf 2022 a Hydref 2022 | Daeth y prosesau ymgynghori i ben mewn perthynas â newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar ffurf ei hehangu i dderbyn dau ddosbarth mynediad yn ogystal â meithrinfa cyfwerth ag amser llawn â 75 o leoedd. Cynhaliwyd sesiynau gyda staff, disgyblion a llywodraethwyr ynghylch dyluniad y safle. |
| Arolwg cyllideb | Rhagfyr 2022 | Hysbysodd y canfyddiadau gynigion terfynol y gyllideb ac amcanion y cynllun corfforaethol a gymeradwywyd gan y cabinet ddiwedd Chwefror a chan y cyngor ar 1 Mawrth. Maent hefyd wedi llywio'r hunanasesiad hwn. |
| Arolwg staff | Rhagfyr 2022 | Mae'r ymatebion yn bwydo i mewn i ddatblygiad parhaus y cynllun gweithlu strategol yn ogystal â llywio amcanion y cynllun corfforaethol. |

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr hunanasesiad yn dangos y canlynol:

- Roedd 56% o'r ymatebwyr yn credu ein bod wedi darparu digon o dystiolaeth o'n gweithredoedd / cynnydd
- Roedd 55% o'r ymatebwyr yn credu ei bod yn amlwg beth arall yr ydym wedi'i gynllunio
- Roedd  56% o'r ymatebwyr yn meddwl bod y dyfarniad 'Da' fwy neu lai yn gywir

Y prif faterion a godwyd yn y cwestiynau agored am yr amcan llesiant hwn oedd:

- Mae'n anodd siarad â staff y cyngor
- Cwynion am ffyrdd, tyllau yn y ffyrdd a chyfyngiadau 20mya
- Cwynion am gasglu gwastraff, sbwriel a thipio anghyfreithlon

## Beth fyddwn yn ei wneud i wella?

Dyma rai o'r prif welliannau y byddwn yn eu gwneud ar gyfer y flaenoriaeth hon:

- Bydd rhaglen fuddsoddi naw mlynedd newydd ar gyfer moderneiddio ysgolion yn cael ei sefydlu yn ystod y flwyddyn hon i baratoi i ddechrau ym mis Ebrill 2024.
- Byddwn yn cwblhau'r gwaith o greu ac integreiddio gwybodaeth allweddol i'r system gwybodaeth reoli newydd ac yn datblygu systemau adrodd ar ddata i sicrhau bod gan wasanaethau fynediad at ddata o ansawdd da y gellir ei ddefnyddio i lywio gwelliannau i wasanaethau.
- Parhau i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiadau Archwilio Cymru ar gynllunio'r gweithlu, rheoli asedau a rheoli perfformiad.
- Parhau i ddatblygu ein dull o gyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol.
- Datblygu ein cyllideb, cynllun arbedion a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- Gweithredu darpariaethau Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) unwaith y bydd y rhain yn hysbys ac yn ddealladwy. Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus, bydd y cabinet yn penderfynu ar gynnwys y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer ar gyfer Ardal Rheoli Ansawdd Aer Stryd y Parc ac yn gweithredu mesurau gwella.
- Rhoi'r cynllun gweithredu ar gyfer cyfathrebu ar waith yn dilyn adolygiad cymheiriaid gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol.
- Cwblhau strategaeth gweithlu newydd, ymgynghori arni, a'i chyhoeddi.
- Gweithio gyda Chofrestrfa Tir EF i symud holl ddata pridiannau tir yr awdurdod lleol i gofrestr ganolog i symleiddio'r broses o brynu cartref.
- Cytuno ar fframwaith rhanbarthol ar gyfer caffael bwyd erbyn Rhagfyr 2023.
- Cynllun Trawsnewid Fflyd Corfforaethol wedi'i adnewyddu i gyflymu'r broses o symud i gerbydau allyriadau isel iawn (ULEV).
- Datblygu opsiynau ar gyfer ein model gwasanaeth gwastraff yn y dyfodol ar gyfer y cyfnod ar ôl 2026.
- Agor y cyfleuster ailgylchu cymunedol newydd yn y Pîl a gwireddu'r arbedion y mae hyn yn eu creu.
- Dylunio a gweithredu Cam 2 cynllun Re:fit (cynllun ôl-osod) i leihau costau ynni ein hadeiladau.
- Gosod 43 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan pellach erbyn 23 Awst.

# Astudiaethau achos

## Tyfu ein rhai ein hunain

Rydym am fuddsoddi mewn pobl i ddatblygu sgiliau yn y dyfodol a sicrhau cyflogaeth. Hyrwyddir datblygiad staff i wella sgiliau ac mae ein timau adnoddau dynol wedi bod yn annog defnyddio dulliau tyfu eich hun i helpu gyda heriau recriwtio.  Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen brentisiaeth a ddechreuodd yn 2013, ac a oedd yn canolbwyntio ar TGCh, caffael a rheoli adeiladu. Ar ôl eu penodi, mae cymorth rheolaidd hefyd ar gael i'r dysgwyr a'u rheolwyr, tra sefydlir rhaglen o weithdai wedi'u cynllunio ar gyfer pob prentis. Gyda buddsoddiad corfforaethol a chydlynu, bu cynnydd yn nifer ac ystod y prentisiaethau, gan gynnwys gofal cymdeithasol, priffyrdd a chynllunio.

Rydym bellach wedi penodi 151 o brentisiaid, gydag 85 yn sicrhau rolau parhaol. Mae hyn wedi cynyddu capasiti, ein helpu i oresgyn prinder sgiliau, a helpu gyda chadw staff. Lansiodd y cyngor gynllun i raddedigion mewnol wedi'i gydlynu'n gorfforaethol yn 2021, gan gydnabod y gall rolau o'r fath wneud cyfraniad pwysig at feithrin gallu, datblygu sgiliau a chynllunio'r gweithlu ar lefel uwch. Rydym wedi penodi saith o raddedigion ar draws ystod o wasanaethau, megis cynllunio, trawsnewid digidol, perfformiad polisi a materion cyhoeddus, comisiynu a pheirianneg sifil.

Y nod yw darparu rhaglen i raddedigion lle byddant yn wynebu heriau gwirioneddol yn gynnar yn eu datblygiad. Byddant yn meddu ar sylfaen o sgiliau i gwrdd â'r heriau hyn a'u rheoli'n effeithiol a sicrhau bod pob profiad yn rhoi cyfle ar gyfer twf personol.

## Cymoedd i'r Arfordir

Lansiwyd platfform digidol ym mis Mawrth 2021 i alluogi aelodau etholedig a'r cyhoedd i adrodd am faterion gyda chartrefi Cymoedd i'r Arfordir neu yn eu hardal leol. Ers hynny, mae 45,605 o ddefnyddwyr wedi creu cyfrif ar-lein. Mae 105 o ffurflenni ar gael drwy'r platfform digidol. Rhwng Mai 2022 a Chwefror 2023, roedd 82,343 o drafodiadau. Mae defnyddio'r platfform digidol hwn wedi galluogi'r cyngor i adolygu rhai o'i fodelau gwaith gweithredol - er enghraifft, cyflwynodd y tîm gwastraff ac ailgylchu llechi i weithredwyr dderbyn yr holl adroddiadau arnynt am dipio anghyfreithlon, sbwriel, cerbydau wedi'u gadael a materion gwastraff eraill.  Mae hyn wedi arwain at y tîm yn gweithio'n fwy effeithlon, yn ogystal â lleihau'r angen i gynhyrchu tocynnau gwaith papur a thasgau gweinyddol diangen.

## Eiddo gwag

Bu Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio mewn partneriaeth â Chymoedd i'r Arfordir i ddod â 35 o eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd. Gwnaethpwyd hyn gan ddefnyddio dros hanner miliwn o bunnoedd o adnoddau'r cyngor. Roedd ein cyfraniad wedi galluogi Cymoedd i'r Arfordir i sicrhau £2 filiwn ychwanegol o gyllid gan Lywodraeth Cymru tuag at adnewyddu a gwella'r eiddo. Roedd y buddsoddiad yn canolbwyntio nid yn unig ar ddod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd ond hefyd ar wella effeithlonrwydd ynni'r cartrefi, gan leihau costau rhedeg ar gyfer tenantiaid y dyfodol.

## Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru

Darparodd Llywodraeth Cymru arian ar gyfer Cynllun Cymorth Tanwydd 2022-23 i helpu pobl gyda'u costau byw. Hawliodd aelwydydd cymwys daliad arian parod untro o £200 i ddarparu cymorth tuag at dalu eu biliau tanwydd yn y gaeaf. Roedd y cynllun yn agored i aelwydydd lle'r oedd ymgeisydd yn derbyn budd-daliadau penodol rhwng 1 Medi 2022 a 31 Ionawr 2023. Er mwyn gweinyddu'r cynllun, datblygodd y cyngor system ar-lein a oedd yn manteisio i'r eithaf ar dechnoleg awtomataidd i brosesu ceisiadau'n gyflym ac yn gywir, gyda chyn lleied o ddata â phosibl. Yn ystod wythnos gyntaf y cynllun yn unig, cwblhawyd 9,500 o geisiadau (allan o 10,500 o geisiadau a dderbyniwyd), gyda thua 9,000 o'r rhain wedi'u cymeradwyo i'w talu. Ar ddiwedd y cynllun, roedd 17,854 o aelwydydd Pen-y-bont ar Ogwr wedi derbyn taliad – cyfanswm o dros £3.57 miliwn o gymorth yn ystod yr argyfwng costau byw.

## Goleuadau stryd

Rhwng 2018 a 2023, mae'r awdurdod wedi bod yn gosod lampau LED sy'n arbed ynni yn lle ein goleuadau stryd traddodiadol. Rydym wedi newid tuag 20,000 o lampau stryd. Cafodd y gwaith ei ariannu gan ddefnyddio £2.242 miliwn o raglen fenthyciadau Salix (corff cyhoeddus anadrannol yw Salix sy'n eiddo'n gyfan gwbl i'r llywodraeth ac mae'n gweinyddu cyllid ar ran yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net). Yn ogystal â lleihau effaith carbon yr awdurdod a chyfrannu at uchelgeisiau sero net 2030, mae'r rhaglen yn sicrhau arbedion cost ynni blynyddol o tua £420,000 bob blwyddyn.

# 4. Sut mae'r cyngor yn defnyddio ei adnoddau?

Rydym bob amser wedi gorfod adrodd pa mor dda yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau. Er enghraifft, rhaid i ni ddweud wrth Archwilio Cymru am ein gwariant, ein gweithlu a'n hadeiladau. Tan yn ddiweddar, nid oedd gennym broses gyffredin ar gyfer adolygu sut yr ydym yn rheoli ein holl adnoddau gwahanol. Eleni, i'n helpu i farnu ein defnydd o adnoddau ac ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym wedi datblygu proses newydd.

Cynhaliasom weithdy gyda rheolwyr a staff i edrych ar y canlynol:

- cyllid
- caffael
- cynllunio corfforaethol
- rheoli perfformiad
- rheoli risg
- cynllunio'r gweithlu
- rheoli asedau

I ddod i'n barn, gwnaethom ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- dangosyddion perfformiad, e.e. lefelau swyddi gwag a chynnal a chadw adeiladau
- tystiolaeth ar gyflawni ein prosiectau a chynlluniau gwella
- adborth gan gwsmeriaid, staff ac undebau llafur
- barn ein rheoleiddwyr, e.e. adroddiad Archwilio Cymru ar gynllunio'r gweithlu

Gwnaethom ofyn cwestiynau i'n gilydd yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys:


- A ydym yn canolbwyntio ar atal, nid dim ond unioni pethau pan fyddant yn mynd o chwith?
- A ydym yn gwneud cynlluniau hirdymor cryf?
- A ydym yn rhannu syniadau, cynlluniau ac adnoddau gyda sefydliadau partner?
- A ydym yn creu cysylltiadau ac yn gwneud pethau'n gyson ar draws y cyngor?
- A ydym yn cynnwys y gymuned a chwsmeriaid mewn cynlluniau a phenderfyniadau allweddol?

Yn yr un modd â'r wybodaeth am berfformiad, gwnaethom gyflwyno ein canfyddiadau i gynghorwyr, a fu'n craffu ar yr wybodaeth, yn ei gwirio, ac yn gofyn cwestiynau. Defnyddiwyd yr un raddfa o ardderchog i anfoddhaol â'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer perfformiad. Gwnaed hyn ym mis Mehefin 2023.



# Beth yw ein barn ni?

## Defnydd o adnoddau



**Digonol**

Mae rheoli ein hadnoddau o ddydd i ddydd yn dda. Ceir modelau gwaith clir a chytûn a pherthynas waith gref rhwng timau corfforaethol a chyfarwyddiaethau.

Bernir bod y defnydd cyffredinol o adnoddau yn ddigonol eto eleni. Mae gwelliannau sylweddol ar y gweill, yn enwedig o ran cynllunio'r gweithlu, rheoli asedau a rheoli perfformiad – a chytunwyd ar gynlluniau gwella manwl yn dilyn dyfarniadau gwael mewn adolygiadau rheoleiddio y llynedd. Rydym yn awyddus i roi'r cynlluniau hyn ar waith ond, i ddod yn 'dda', bydd angen buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau cymorth.

Mae rhai swyddi gwag a phroblemau capasiti o hyd mewn timau corfforaethol, a'r uwch-reolwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw. Mewn rhai meysydd, mae angen i ni wella ymgysylltiad aelodau / her gan aelodau a datblygu systemau TG modern, cydgysylltiedig sy'n ein helpu i wneud penderfyniadau. Mae gan rai cyfarwyddiaethau well adnoddau nag eraill i allu ymateb a gweithio gyda thimau corfforaethol. Ystyriwyd bod y rheini â thimau busnes ag adnoddau da yn fwy llwyddiannus.

**Mae ein barn gyffredinol yn edrych ar y defnydd o adnoddau o bob math. Mae gennym hefyd farn benodol ar gyfer pob math o adnodd, i'n helpu gyda'n gwaith o gynllunio gwelliant.**

## Cyllid



**Da**

Mae rheolaeth ariannol yn dda. Rydym yn cydbwyso ein cyllideb yn llwyddiannus ac yn cadw o fewn y gyllideb yn ystod y flwyddyn. Mae adborth gan ein rheoleiddwyr yn gadarnhaol. Mae gennym sefyllfa ariannol iach, ac rydym yn ymateb yn gyflym i bwysau newydd, drwy reoli cyllidebau a chronfeydd wrth gefn yn effeithiol a her gan aelodau. Mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar ein cyllid, gyda dyfarniadau cyflog llawer uwch na'r disgwyl a lefelau digynsail o chwyddiant prisiau. Mae ein cyllideb wedi wynebu pwysau anochel gan bob gwasanaeth ac mae unrhyw hyblygrwydd blaenorol o fewn y gyllideb wedi cael ei erydu.

## Cynllunio corfforaethol



**Da**

Eleni rydym wedi datblygu cynllun corfforaethol newydd i adlewyrchu uchelgeisiau aelodau etholedig, staff a phartneriaid. Mae hefyd yn adlewyrchu'r heriau sy'n ein hwynebu, gan gynnwys adfer ar ôl COVID-19 a'r argyfwng costau byw. Mae'n ddogfen wahanol, fwy hygyrch na'r rhai a gynhyrchwyd yn y gorffennol. Mae'r broses ddatblygu wedi bod yn fwy cynhwysol, gan weithio'n agos gydag aelodau etholedig, staff, undebau llafur a phartneriaid ar dri cham o'i datblygiad. Cytunwyd ar y cynllun corfforaethol gan y cyngor ar 2 Mawrth 2023.


## Rheoli risg



**Da**

Mae rheoli risg yn dda. Mae gwelliannau pellach wedi'u gwneud i nodi a rheoli risg, trwy Bolisi Rheoli Risg Corfforaethol wedi'i ddiweddaru. Mae adrodd am risg yn syml ac yn hygyrch. Mae'r Asesiad Risg Corfforaethol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac edrychir yn fanylach ar hyd at ddwy risg gyda'r prif swyddog perthnasol, fel y gall aelodau'r pwyllgor ymchwilio'n fanylach. Rhoddodd adolygiad gan archwilwyr mewnol o'n gwaith rheoli risg, ym mis Mawrth 2023, farn 'sicrwydd sylweddol' i ni, ac ni chodwyd unrhyw ganfyddiadau nac argymhellion.


## Caffael



**Digonol**

Mae comisiynu yn ddigonol. Mae caffael yn parhau i fod yn dda. Mae'r Strategaeth Gaffael sy'n Gymdeithasol Gyfrifol, y cynllun cyflawni a'r Rheolau Gweithdrefn Contract wedi'u diweddaru wedi'u gwreiddio a darparwyd hyfforddiant ychwanegol. Mae gennym rai fframweithiau rhanbarthol newydd – er enghraifft, cynnal a chadw tiroedd a pheirianneg sifil. Mae angen i ni weithio i ddatblygu diwylliant o flaengynllunio ac ymgysylltu cynnar rhwng comisiynwyr a'r tîm caffael corfforaethol. Bydd hyn yn arwain at gyfleoedd i nodi a mynd i'r afael â phroblemau ac ystyried pethau fel datgarboneiddio a buddion cymunedol yn well. Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu gyda chomisiynwyr a'r tîm caffael corfforaethol, i'n helpu i gydweithio'n well i gyflawni amcanion y strategaeth.


## Rheoli perfformiad



**Digonol**

Mae rheoli perfformiad yn ddigonol. Rydym wedi cael archwiliad mewnol o ddangosyddion perfformiad ac adolygiad gan Archwilio Cymru o reoli perfformiad a ganfu nad yw trefniadau rheoli perfformiad y cyngor yn ei alluogi'n gyson i werthuso a rheoli perfformiad yn effeithiol. Ers hynny, rydym wedi gwneud gwelliannau, ond mae mwy i'w wneud. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn dameidiog ond yn dda mewn rhai meysydd. Mae cynllun wedi'i ddatblygu fel y gellir cytuno ar y gwelliannau hyn, eu cyfathrebu a'u monitro, gan gynnwys recriwtio i'r swydd wag sy'n weddill, datblygu fframwaith perfformiad newydd, egluro rolau a chyfrifoldebau, a gwella ein diwylliant perfformiad, ansawdd data a chywirdeb.


## Cynllunio'r gweithlu



**Digonol**

Mae rheolaeth y gweithlu yn dda. Mae adborth gan weithwyr, rheolwyr, cynrychiolwyr undebau llafur ac archwiliadau mewnol yn gadarnhaol ar y cyfan. Cynorthwyir rheolwyr i ymdrin yn effeithiol â materion pobl trwy gefnogaeth briodol ac amserol gan adnoddau dynol. Nod model gweithredu'r tîm adnoddau dynol yw rhoi gwell gwasanaeth i reolwyr yn seiliedig ar ffocws cynyddol ar wasanaethau adnoddau dynol rhagweithiol ac ataliol a gostyngiad cynyddol yn yr angen am wasanaethau cymorth adweithiol a'r ddarpariaeth ohonynt. Asesir bod y farn gyffredinol yn ddigonol gan fod angen i ni wella capasiti ymhlith rheolwyr ac yn y tîm adnoddau dynol, a chanolbwyntio ar gynllunio gweithlu strategol, anghenion hirdymor y gweithlu a chynllunio olyniaeth. Yn dilyn adolygiad gan Archwilio Cymru o gynllunio'r gweithlu, rydym yn datblygu Cynllun Gweithlu Strategol 2023-2028 ac yn datblygu polisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol, wedi'u cyd-lunio, i ganolbwyntio ar wasanaethau adnoddau dynol rhagweithiol. Mae angen i ni barhau i symleiddio prosesau adnoddau dynol, gan gynnwys defnyddio dulliau awtomeiddio.

## Rheoli asedau



**Digonol**

Mae polisi rheoli asedau yn dda gydag ymgysylltiad cryf gan gyfarwyddiaethau.  Mae'r strategaeth rheoli asedau ar gyfer ein heiddo yn ddeinamig ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Y farn gyffredinol yw digonol, ac mae'n seiliedig ar yr angen i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu ac adnoddau mewn modd sy'n arwain at ddull adweithiol parhaus. Mewn ymateb i adolygiad Archwilio Cymru y llynedd, rydym wedi adolygu Cynllun Rheoli Asedau Strategol 2030, lleihau ein hôl-groniad o waith cynnal a chadw, gwella ein rheolaeth o gydymffurfedd adeiladau statudol, a gwneud cynnydd ar y System Rheoli Gwaith Integredig (IWMS) i wella ein data/meincnodi. Mae angen mwy o welliannau, gan gynnwys mabwysiadu'r cynllun rheoli asedau strategol, gwelliannau parhaus yn yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw a chydymffurfedd adeiladau statudol, gweithredu'r System Rheoli Gwaith Integredig, a chanolbwyntio ar gapasiti ein gweithlu. Mae adolygiadau ar wahân ar waith ar gyfer rheoli asedau eraill, gan gynnwys priffyrdd / goleuadau stryd.

## Ymatebion i’r ymgynghoriad

Roedd yr ymatebion i’r ymgynghoriad ar yr hunanasesiad yn dangos y canlynol:

- Roedd 52% o’r ymatebwyr yn credu ein bod wedi darparu digon o dystiolaeth o’n gweithredoedd / cynnydd
- Roedd 49% o’r ymatebwyr yn credu ei bod yn amlwg beth arall yr ydym wedi’i gynllunio
- Roedd 57% o’r ymatebwyr yn meddwl bod y dyfarniad ‘Da’ fwy neu lai yn gywir

Y prif faterion a godwyd yn y cwestiynau agored am y mater hwn oedd:

- Mae’r dreth gyngor yn rhy uchel ac ni ddylid ei chynyddu
- Ni ddylai staff fod yn gweithio gartref mwyach
- Nid oes angen rhai adeiladau cyngor bellach

## Beth fyddwn yn ei wneud i wella?

Dyma rai o’r prif welliannau y byddwn yn eu gwneud wrth reoli adnoddau:

- Datblygu a gweithredu cynllun gweithlu strategol.
- Cyfathrebu a gweithredu’r Cynllun Gwella Rheoli Perfformiad, gan gynnwys datblygu Cynllun Cyflawni Corfforaethol a Fframwaith Perfformiad.
- Gwelliannau rheoli asedau, gan gynnwys mabwysiadu’r cynllun rheoli asedau strategol, gwelliannau parhaus yn yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw a chydymffurfedd adeiladau statudol, gweithredu’r System Rheoli Gwaith Integredig, a chanolbwyntio ar gapasiti ein gweithlu.
- Gwneud gwaith cynllunio corfforaethol a diweddariadau yn gynharach yn y flwyddyn.
- Bydd y system a ddefnyddiwn i fonitro ac adrodd ar risg yn cael ei gwella.
- Byddwn yn gweithio i nodi mwy o opsiynau arbedion tymor hwy, yn seiliedig ar flaenoriaethau y cytunwyd arnynt.
- Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu gyda chomisiynwyr perthnasol yn yr awdurdod a’r tîm caffael corfforaethol.
- Adolygu a diweddaru polisi gweithio hybrid y cyngor.
- Ystyried rhesymoli adeiladau fel rhan o ddatblygiad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- Symleiddio prosesau adnoddau dynol, gan gynnwys defnyddio dulliau awtomeiddio.

## 5. Pa mor dda yw trefn llywodraethu'r cyngor?

Mae sefydliadau sydd â threfn lywodraethu dda yn defnyddio prosesau gwneud penderfyniadau clir ac yn cyfathrebu'n agored am yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn gweithio'n dda gyda'u rhanddeiliaid, yn rheoli'r risgiau y maent yn eu hwynebu, ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu hasedau.

Rydym bob amser wedi gorfod adrodd ar ein llywodraethu i Archwilio Cymru. Mae proses glir ar gyfer datblygu 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol' sydd wedi bodoli ers blynyddoedd lawer. Eleni, i'n helpu i farnu ein llywodraethu ac ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym wedi ychwanegu mwy o feddwl am ein gwaith ymgynghori, ymgysylltu a chynnwys. Mae gennym lywodraethu gwleidyddol sefydledig ac effeithiol, gyda'r cabinet yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn rhan o gyfarfodydd rheolaidd â'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, a chyda'r cyngor llawn pan fo angen. Mae cyfarfodydd trosolwg a chraffu wedi'u hamserlennu a rôl well a phwysig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn ogystal, pan fo angen, sefydlir paneli aelodau ar wahân i wella'r broses lywodraethu a gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth well. Enghraifft o hyn yw'r Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb, a ddefnyddir i rannu materion cyllidebol sy'n dod i'r amlwg ar sail drawsbleidiol gyfrinachol, a'r Panel Aelodau Gofal Cymdeithasol, sy'n caniatáu i risgiau a materion yn y gwasanaeth hwnnw gael eu trafod a'u deall yn well yn gynharach.

## Beth yw ein barn ni?

### Llywodraethu




Mae sefydliadau sydd â threfn lywodraethu dda yn defnyddio prosesau gwneud penderfyniadau clir ac yn cyfathrebu'n agored am yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn gweithio'n dda gyda'u rhanddeiliaid, yn rheoli'r risgiau y maent yn eu hwynebu, ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu hasedau.

## Gwneud penderfyniadau

Mae ein trefniadau llywodraethu yn dda, ac yn gweithio'n dda. Mae ein Fframwaith Llywodraethu â'n Cod Llywodraethu Corfforaethol yn esbonio sut rydym yn gweithio, sut rydym yn atebol a sut y gwneir penderfyniadau. Yn 2022, gwnaethom ddatblygu cyfansoddiad newydd i gymryd i ystyriaeth y gofynion deddfwriaethol newydd a osodwyd ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fe'i cymeradwywyd gan y cyngor ar 19 Hydref 2022 a'i roi ar waith o 1 Rhagfyr 2022.

Mae canllaw i'r cyfansoddiad hefyd wedi'i gynhyrchu a'i gyhoeddi, i helpu aelodau'r cyhoedd i ddeall ein cyfansoddiad. Trwy'r dogfennau hyn (ynghyd â Chod Ymddygiad yr Aelodau, y Pwyllgor Safonau a rôl archwilio mewnol), mae'r cyngor yn gweithredu gydag uniondeb a gwerthoedd moesegol ac o fewn ei bwerau cyfreithiol. Caiff trefniadau llywodraethu eu hadolygu bob blwyddyn i ddiweddaru'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'n cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nodwyd nifer o faterion arwyddocaol yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22 y cyngor, felly, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud gwelliannau, gan gynnwys y canlynol

- Cyhoeddi ein hunanasesiad corfforaethol cyntaf ym mis Hydref 2022
- Datblygu cynllun pontio ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru
- Diweddaru ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a dechrau adolygiad o'n cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd
- Gwneud gwaith i asesu a mynd i'r afael â phroblemau gyda chostau cynyddol mewn contractau presennol a thendrau ar gyfer contractau newydd, gan gynnwys darn penodol o waith ar gyfer y sector gofal cymdeithasol
- Cwblhau rhaglen sefydlu aelodau, digwyddiadau, hyfforddiant, a sesiynau galw heibio
- Codi ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau GDPR wrth weithio gartref
- Datblygu polisi cyfarfodydd aml-leoliad, a gymeradwywyd gan y cyngor ar 15 Mehefin 2022.

## Ymgynghori, ymgysylltu a chynnwys

Mae llawer iawn o ymgynghori â'n trigolion a busnesau lleol. Mae gan y tîm ymgynghori corfforaethol raglen o ymgynghoriadau yn y dyfodol ac maent yn cefnogi cyfarwyddiaethau i ymgynghori mewn modd amserol ac effeithiol. Mae gennym amrywiaeth o sianelau, mecanweithiau a grwpiau ymgynghori, ond gellid ehangu'r rhain. Mae ymgysylltu a chynnwys yn ddigonol. Cynhelir gweithgareddau ymgysylltu mewn cyfarwyddiaethau, gyda rhai yn defnyddio arferion gorau diwydiant. Ond mae ymgysylltiad yn dameidiog ac nid yw'r tîm corfforaethol bob amser yn cymryd rhan nac yn cael ei hysbysu. Mae ymgysylltu fel arfer yn adweithiol yn hytrach na rhagweithiol. Mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar ein capasiti a'n gallu i ymgysylltu. Nid oes llawer o weithgarwch yn canolbwyntio eto ar ymddiriedaeth neu feithrin perthynas rhwng y

gymuned a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac rydym yn y broses o ddatblygu ein platfform ymgysylltu newydd, sy'n cynnig amrywiol ddulliau cyfathrebu sy'n cael eu defnyddio i wella ein gallu i gysylltu â phreswylwyr.

Mae gennym drefniadau partneriaeth gymdeithasol cadarnhaol ac adeiladol. Rydym yn gweithio gydag undebau llafur cydnabyddedig, gyda threfniadau clir a rheolaidd ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu. Mae cynrychiolwyr undebau llafur lleol a rhanbarthol yn cyfarfod â swyddogion adnoddau dynol yn fisol. Daw swyddogion eraill i mewn yn ôl yr angen – er enghraifft, y Prif Weithredwr ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol a'r Swyddog Adran 151 ar y gyllideb. Mae dau aelod o'r cabinet yn mynychu bob deufis er mwyn i gynrychiolwyr yr undebau llafur allu siarad â nhw'n uniongyrchol. Mae cyfarfodydd ar wahân ar gyfer ysgolion. Mae cynrychiolwyr yr undebau llafur yn chwarae rhan bwysig mewn gwneud penderfyniadau a newid sefydliadol. Maent yn cyfrannu syniadau a safbwyntiau gwahanol ac yn cefnogi eu haelodau mewn cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar effeithiau unrhyw newidiadau ar y gweithlu. Cynhelir yr holl adolygiadau o bolisi adnoddau dynol ar ôl ymgynghori'n llawn â'r undebau llafur.

Yn ogystal ag ymgysylltu rheolaidd â staff ac undebau llafur, rydym yn cynnal arolwg staff blynyddol. Cafodd yr un olaf, ym mis Rhagfyr 2022, dros 1,000 o ymatebion. Roedd yr arolwg yn cynnwys llawer o gwestiynau a oedd yn ailadrodd arolygon blaenorol fel y gallwn weld sut rydym yn gwneud dros amser. Mae boddhad cyffredinol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel cyflogwr wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf ond wedi gostwng ychydig yn y flwyddyn ddiwethaf, o 59% yn 2018, 66% yn 2020, 73% yn 2021 a 67% yn 2022. Datblygwyd adroddiad adborth manwl, ac mae cynllun gweithredu mewnol yn cael ei ddatblygu i weithredu ar faterion o'r arolwg staff.

Mae ymgysylltu â rheoleiddwyr yn gryf ac yn systematig. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng rheoleiddwyr ac uwch-swyddogion yn y cyngor i drafod gwaith y rheoleiddwyr a chynlluniau gwella'r cyngor.



## Ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr hunanasesiad yn dangos y canlynol:

- Roedd 52% o'r ymatebwyr yn credu ein bod wedi darparu digon o dystiolaeth o'n gweithredoedd / cynnydd
- Roedd 50% o'r ymatebwyr yn credu ei bod yn amlwg beth arall yr ydym wedi'i gynllunio
- Roedd 54% o'r ymatebwyr yn meddwl bod y dyfarniad 'Da' fwy neu lai yn gywir

Y prif faterion a godwyd yn y cwestiynau agored am yr amcan llesiant hwn oedd:

- Nid yw'r cyngor yn gwrando ar drigolion
- Nid yw'r cyngor yn hysbysu trigolion nac yn darparu tystiolaeth o'r hyn y mae'n ei wneud
- Nid oes digon o ffocws ar wasanaethau cyffredinol neu weladwy – sbwriel, tipio anghyfreithlon, cynnal a chadw ffyrdd a phalmentydd, torri gwair ac ati

## Beth fyddwn yn ei wneud i wella?

Rhai o'r prif welliannau y byddwn yn eu gwneud yn ein llywodraethu yw:

- Datblygu cynllun gweithlu strategol y cyngor
- Gwneud gwelliannau i reoli asedau strategol
- Datblygu fframwaith contractwyr ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i roi perchnogaeth o'r dechrau i'r diwedd i'r cyngor o'r broses, o atgyfeirio i'w chwblhau
- Gweithredu ein cynlluniau Datgarboneiddio 2030
- Gwella rheolaeth ariannol hirdymor
- Darparu hyfforddiant ar y strategaeth gyfalaf, cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a'r datganiad cyfrifon i bob aelod
- Rhoi ein cynllun gwella rheoli perfformiad ar waith
- Gwella ein hymagwedd at ymgysylltu a chynnwys rheolaidd a pharhaus
- Gweithredu ein strategaeth cyfranogiad ac ymgysylltu newydd ar gyfer y cyngor
- Gwella cyfathrebu'r cyngor a'i naratif lle a darparu tystiolaeth ychwanegol am y camau y mae'r cyngor yn eu cymryd



# 6. Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Wrth ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb, rydym wedi siarad â'n trigolion, rhanddeiliaid a gweithwyr ac wedi defnyddio gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys adroddiadau y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, adroddiadau Llywodraeth Cymru a strategaethau mewnol. Yn ogystal â hyn rydym wedi:

- Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 a chynllun gweithredu cysylltiedig
- Adolygu ein hen Gynllun Cydraddoldeb Strategol a chynllun gweithredu i weld sut rydym wedi gwneud
- Datblygu pecyn cymorth ymgynghori i wella'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'n cymunedau
- Rhoi ystyriaeth bellach i bob un o'r naw nodwedd warchodedig a gwmpesir gan dri phrif nod y ddyletswydd gyffredinol a'r gofyniad i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu a chamau gweithredu eraill a waherddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010
- Edrych ar ddulliau rhanbarthol o ddiwallu anghenion teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a phobl sydd wedi profi cam-drin domestig a throseddau casineb
- Dechrau ar y broses ar gyfer datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2024-28

## Sut ydym yn nodi ac yn casglu gwybodaeth berthnasol?

Rydym wedi ymrwymo i gasglu a defnyddio data i nodi lle mae rhai grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn profi effaith anghymesur neu lle gallem ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Rydym yn casglu data ar gwsmeriaid a phreswylwyr trwy ein gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu ac ar ein gweithwyr trwy ein systemau mewnol ein hunain. Byddwn yn casglu ac yn defnyddio'r data cydraddoldeb canlynol:

- Data proffil cyflogaeth ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig
- Data defnyddwyr gwasanaeth i ddeall nodweddion ein defnyddwyr gwasanaeth
- Ymgeiswyr am swyddi sydd â phob nodwedd warchodedig

Cyhoeddir y data hwn yn flynyddol fel rhan o broses adrodd flynyddol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn ogystal, byddwn yn cyhoeddi'n flynyddol:

- Yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb Llawn a gynhaliwyd
- Yr adolygiad o gynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Adroddiad blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg

## Pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol?

Bob blwyddyn, rydym yn ceisio gwella'r data monitro cydraddoldeb sydd gennym ar gyfer gweithwyr. Rydym yn annog gweithwyr i ddiweddaru gwybodaeth trwy gyfathrebu/ arfarniadau.

## Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am gydraddoldeb mynediad i gyflogaeth, hyfforddiant a chyflog?

Bob blwyddyn, rydym yn cyflwyno ein hadroddiad 'cydraddoldeb yn y gweithlu' i gynghorwyr. Mae hyn yn dweud wrthym am ein niferoedd o weithwyr â nodweddion gwarchodedig. Mae hefyd yn dweud wrthym am gyflog, recriwtio a hyfforddiant gweithwyr â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn i gyd yn cael ei roi at ei gilydd a'i gynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae meysydd i'w gwella wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.



Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr

BRIDGEND
County Borough Council